

Pennod 12: Datblygu heb awdurdod

CYFLWYNIAD

- 12.1 Ym Mhennod 12 o'n Papur Ymgynghori, tynnwyd sylw at yr egwyddor nad yw torri rheolaeth gynllunio yn drosedd, ond bod peidio â chydymffurfio â champau gorfodi canlyniadol fel arfer yn drosedd.¹ Nodwyd gennym hefyd, mewn rhai achosion, y gall datblygiad yr ymgwymerwyd ag ef heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol fod yn hollol dderbyniol o ran polisi, neu o leiaf y gellid ei wneud yn dderbyniol ar ôl gwaith adferol.² Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio (a'r gymuned leol) yn dymuno cael gwared ar y datblygiad tramgwyddus ar unwaith.
- 12.2 Mae'n bwysig bod gan awdurdodau cynllunio yr adnoddau priodol i sicrhau bod y gwaith angenrheidiol – naill ai i unioni effeithiau'r datblygiad heb awdurdod neu, yn syml, i'w waredu – yn cael ei gwblhau mewn gwirionedd. Mae'r adnoddau hyn ar gael yn Rhan 7 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn bennaf.
- 12.3 Fel mewn meysydd eraill o'r system gynllunio, mae'r rheolau a'r gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â gorfodi cynllunio yn cydbwysu'n ofalus rhwng buddiannau dilys croes. Nid oeddem am i'n diwygiadau arfaethedig amharu ar y cydbwysedd hwnnw. Yn unol â hynny, roedd y diwygiadau a awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, yn rhai mân a thechnegol eu natur, gyda'r nod o sicrhau rhywfaint o gysondeb, eglurder a symlrwydd yn y gyfraith bresennol – a sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol – heb wneud newidiadau radical.
- 12.4 Er i ni nodi mai dyna oedd ein nod, cawsom nifer o sylwadau cyffredinol yn mynegi awydd i gryfhau'r system orfodi, atal ceisiadau cynllunio ôl-weithredol hyd y gellir a chosbi troseddwr cynllunio yn llymach.³ O ystyried nodau a chwmpas y prosiect hwn, nid ydym yn trafod yr awgrymiadau hyn yma. Maent wedi'u crynhoi yn ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar wahân i'r adroddiad hwn.
- 12.5 Rydym wedi cael sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau yn ein hymgynghoriad ynghylch gorfodi gan amrywiaeth o wahanol ymgynghoreion, sydd ag amrywiol ddi-ddordebau, yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt yn cytuno â'r hyn a awgrymwyd gennym. Dywedodd y Grid Cenedlaethol, er enghraifft, fod ein cynigion yn gytbwys ac yn briodol. Yn ein barn ni, mae hyn yn cyfiawnhau ein hymagwedd fwriadol gytbwys tuag at ddiwygio gorfodi cynllunio yng Nghymru.
- 12.6 Pwysleisiodd ymgynghoreion eraill fod angen darparu mwy o adnoddau er mwyn rhoi'r amrywiol weithdrefnau ar waith.

¹ Papur Ymgynghori, para 12.3.

² Papur Ymgynghori, para 12.2.

³ Er enghraifft, awgrymodd un ymgynghorai y dylai gwneud cais cynllunio ôl-weithredol fod yn drosedd, gyda chosb o dymor yn y carchar.

GWEITHDREFN RAGARWEINIOL

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn adrannau 171C a 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu huno'n un pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio gyflwyno "hysbysiad o wybodaeth gynllunio" i berchennog neu feddianydd y tir neu unrhyw berson arall sy'n ymgymryd â gweithrediadau neu weithgareddau eraill ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben, yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth am y tir a'r defnydd presennol ohono. Pan fo'n ymddangos bod rheolaeth gynllunio wedi cael ei thorri, gall hysbysiad o'r fath hefyd ofyn am wybodaeth bellach am faterion penodedig, a gall ofyn am gyfarfod lle y gall y derbynnydd drafod y materion y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad (Cwestiwn 12-1 o'r Ymgynghoriad).

- 12.7 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym y gall awdurdod cynllunio ddod yn ymwybodol gyntaf am achos a amheuir o dorri rheolaeth gynllunio ar sail gwybodaeth anghywir neu anghyflawn.⁴ Ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath, cam cyntaf yr awdurdod yn aml yw cyflwyno hysbysiad tramgwyddo cynllunio o dan adran 171C o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, lle y gall yr awdurdod ofyn am wybodaeth am yr achos o dor-rheolaeth a amheuir. Fel arall, mae gan yr awdurdod cynllunio bŵer mwy cyffredinol i gyhoeddi hysbysiad o dan adran 330, yn gofyn am wybodaeth am y tir a'r defnydd presennol ohono. Gall gwybodaeth o'r fath helpu'r awdurdod i benderfynu p'un a ddylai gyflwyno hysbysiad o dan y Ddeddf, ac ar ba ffurf.⁵
- 12.8 Nodwyd gennym y gall y ddau bŵer i gasglu gwybodaeth ofyn am wybodaeth ynglŷn â'r buddiant yn y tir a ddelir gan y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad a chan unrhyw berson arall, y defnydd a wneir o'r tir a phryd y dechreuodd, a phryd y dechreuodd y gweithgareddau sydd bellach yn cael eu cynnal ar y tir.
- 12.9 Gall hysbysiad o wybodaeth gynllunio hefyd wneud y canlynol:
- 1) gofyn am wybodaeth am bersonau sy'n cynnal gweithrediadau (i'r graddau y maent yn wahanol i weithgareddau);
 - 2) gofyn am fanylion unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd, neu'r rhesymau pam y credir nad oes angen caniatâd;
 - 3) gwahodd y derbynnydd i ddod i gyfarfod er mwyn trafod y mater â'r awdurdod.⁶
- 12.10 Awgrymwyd gennym fod dau bŵer i gasglu gwybodaeth sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn ddryslud, a nodwyd bod y pwerau ychwanegol i gael gwybodaeth o dan Hysbysiad

⁴ Papur Ymgynghori, para 12.12.

⁵ Papur Ymgynghori, para 12.13.

⁶ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171(3)(d), (4)

o Wybodaeth Gynllunio yn ymwithiol o bosibl (ac, o bosibl, yn torri'r hawl i fwynhau eiddo yn heddychlon).⁷ Awgrymwyd gennym y dylid cyfuno'r ddau bŵer.

- 12.11 O blith y 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 26 yn cefnogi'r cynnig, roedd un yn cytuno yn ddarostyngedig i amodau, ac roedd tri yn ansicr eu hymateb. Roedd yr ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn oll yn cytuno â'r cynnig cyffredinol i uno'r ddau bŵer yn un. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynglŷn â dwy agwedd ar yr argymhelliad – cwmpas arfaethedig y pŵer newydd, ac enw'r hysbysiad newydd. Tynnodd Liam Jones o'r Gymdeithas Gorfodi Cynllunio Genedlaethol ("NAPE") sylw hefyd at bwerau awdurdodau lleol i gael gwybodaeth o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
- 12.12 Rydym wedi adolygu'r tri phŵer yn ofalus. O ran y personau y gellir cyflwyno hysbysiad iddynt, mae pob un o'r tri yn cyfeirio at feddiannydd y tir; mae pob un yn cyfeirio at y perchennog (neu unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir); mae Deddf 1976 yn cyfeirio at unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i reoli'r tir; ac mae adran 171C yn cyfeirio at unrhyw berson sy'n ymgymryd â gweithrediadau ar y tir neu sy'n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben. Yn ein barn ni, dylai'r pŵer newydd gyfeirio at bob un o'r rhain – ond wrth gwrs byddai'n rhoi pŵer, ond nid ei gwneud yn ofynnol, i'r awdurdod gynnwys unrhyw un ohonynt.
- 12.13 O ran y wybodaeth y gellir gofyn amdani, rydym wedi cyfeirio uchod at nodweddion Hysbysiad o Wybodaeth Gynllunio sy'n ychwanegol at y rhai mewn hysbysiad o dan adran 330. Rydym o'r farn ei bod yn hollol resymol gofyn am y rhain mewn unrhyw achos, ac nid dim ond un sy'n ymwneud â gorfodi – gan nodi, unwaith eto, na fydd eu hangen yn aml. Ar ôl ailystyried, rydym yn amau p'un a fyddant byth yn golygu torri hawl y derbynwyr i fwynhau eu heiddo yn heddychlon; sut bynnag, nid yw'r risg o hynny mewn achos eithafol yn ddigon mawr i gyfiawnhau goleddfu'r pŵer statudol yn benodol.
- 12.14 Dadleuodd dau ymgynghorai, Allan Archer (ymgyngorydd cynllunio annibynnol), a CBS Blaenau Gwent, na fyddai ein henw arfaethedig, sef 'hysbysiad o wybodaeth gynllunio', yn cyfleu i'r sawl sy'n ei dderbyn pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa na phwysigrwydd darparu'r wybodaeth dan sylw; yn wahanol i'r term presennol 'hysbysiad tramgwyddo cynllunio'. Nododd Allan Archer:

One of the benefits of the s171C provisions is that it sits in the Enforcement section of the Act and is called a Planning Contravention Notice which clearly highlights for the recipient the nature of the planning authority's interest and the possibility of future enforcement action – I'd suggest that it would be beneficial if these advantages were not lost in the placement of this new provision in the Code and the naming and wording of the notice served in cases which correspond to those subject currently to s171C.

12.15 Gwnaeth CBS Blaenau Gwent sylwadau tebyg.

12.16 Cytunwn. Mater drafftio yw enw'r hysbysiad newydd. Mae rhai darnau o ddeddfwriaeth yn cyfeirio at "hysbysiadau o wybodaeth", ac mae rhai yn cyfeirio at

⁷ Papur Ymgynghori, para 12.18.

“gorchmynion gwybodaeth”; ac mae Deddf Diogelu Data 2018 yn cyfeirio at y ddau. Pe bernid ei bod yn ddymunol pwysleisio difrifoldeb y weithdrefn newydd, byddai modd defnyddio term megis *gorchymyn gwybodaeth gynllunio*, yn hytrach na’r term a awgrymwyd gennym yn wreiddiol, sef ‘hysbysiad o wybodaeth gynllunio’. Yn ein barn ni, byddai’r term newydd i ryw raddau yn adlewyrchu difrifoldeb yr hen hysbysiad tramgwyddo cynllunio, a’r ffaith mai casglu gwybodaeth yw diben yr hysbysiad yn y bôn ac nad yw’n ymwneud â gorfodi o reidrwydd. Ond gellid defnyddio’r naill derm neu’r llall.

- 12.17 Fodd bynnag, mae’n bwysig bod y diffiniad o “taking enforcement action”, a geir ar hyn o bryd yn adran 171A(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn cael ei ailddatgan ar ffurf ddiwygiedig er mwyn cynnwys cyflwyno gorchymyn gwybodaeth gynllunio neu hysbysiad o wybodaeth gynllunio, yn lle’r cyfeiriad presennol at gyflwyno hysbysiad tramgwyddo cynllunio, gan fod iddo oblygiadau o ran terfynau amser ar gyfer cymryd camau pellach.

Argymhelliad 12-1.

Argymhellwn y dylai’r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn adrannau 171C a 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu huno’n un pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod cynllunio gyflwyno “gorchymyn gwybodaeth gynllunio” (neu “hysbysiad o wybodaeth gynllunio”) i unrhyw un sy’n berchen ar y tir neu sy’n ei feddiannu, unrhyw un sydd â buddiant ynddo, unrhyw berson sy’n ymgymryd â gweithrediadau neu weithgareddau eraill ar y tir neu sy’n ei ddefnyddio at unrhyw ddiben ac unrhyw un sydd wedi’i awdurdodi i’w reoli. Dylai’r pŵer fod yn arferadwy pan fo Gweinidogion Cymru neu’r awdurdod yn credu bod rheolaeth gynllunio wedi cael ei thorri o bosibl, neu lle mae angen gwybodaeth i wneud unrhyw orchymyn, cyhoeddi, neu gyflwyno hysbysiad neu unrhyw ddogfen arall o dan y Ddeddf.

Dylai’r pŵer i wneud gorchymyn gynnwys y nodweddion a grybwyllir yn adran 171C(3) (gwybodaeth y mae’n ofynnol ei darparu) a 171C(4) (cynnig cyfarfod i drafod); ac os credir bod rheolaeth wedi’i thorri o bosibl, mae’n rhaid i’r gorchymyn gynnwys y wybodaeth a bennir yn adran 171C(5) (ynglŷn â chamau gorfodi posibl).

MYND I MEWN I EIDDO AT DDIBENION GORFODI

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai’r cyfyngiad ar fynd i mewn i eiddo at ddibenion gorfodi dim ond ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr, a geir ar hyn o bryd yn adran 196A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas â phob eiddo a ddefnyddir fel annedd (Cwestiwn 12-2 o’r Ymgynghoriad).

- 12.18 Yn ein Papur Ymgynghori trafodwyd yn fras y pŵer o dan adran 196A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i unrhyw un sydd wedi’i awdurdodi gan awdurdod cynllunio i gael mynediad i dir er mwyn ymchwilio i achos a amheuir o dorri rheolaeth

gynllunio.⁸ Nodwyd gennym fod 196A yn darparu, yn achos tŷ annedd, y dylid rhoi rhybudd o 24 awr.⁹ Argymhellwyd gennym mai ‘annedd’ yw’r term gorau, a fyddai’n cynnwys fflat, cartref symudol neu gwch preswyl.¹⁰

- 12.19 Roedd pob un o’r 30 o ymgynghoreion a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn cytuno â’n cynnig dros dro.
- 12.20 Awgrymodd Cyngor Dinas Casnewydd “the term dwelling should include ... or associated buildings.” Awgrymodd Richard White ymhellach “it should also state clearly that it applies to any land surrounding the ‘dwelling’”, including “buildings used in connection to a dwelling”. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi o ran hyn, am ei bod yn ddigon posibl i annedd fod yn gysylltiedig ag eiddo masnachol. Cyhyd â bod y ffin rhwng yr annedd a’r annedd ddibreswyl yn cael ei pharchu, yn ein barn ni (er enghraifft) ni ddylai’r cyfyngiad fod yn gymwys i siop sydd wedi’i lleoli o dan fflat o dan yr un berchenogaeth.

Argymhelliad 12-2.

Argymhellwn y dylai’r cyfyngiad ar fynd i mewn i eiddo at ddibenion gorfodi dim ond ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr, a geir ar hyn o bryd yn adran 196A(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw eiddo sy’n cael ei ddefnyddio fel annedd.

ACHOSION CUDD O DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai’r gyfraith ynglŷn ag achosion cudd o dorri rheolaeth gynllunio aros fel y mae, yn amodol ar yr egwyddorion cyfraith gyffredin a ddatblygwyd yn *Welwyn Hatfield Council v Secretary of State*, ac yn benodol na ddylai gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio”, a gyflwynwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gael ei chynnwys yn y Bil (Cwestiwn 12-3 o’r Ymgynghoriad).

- 12.21 Yn ein Papur Ymgynghori, trafodwyd y cyfnod o amser sy’n mynd heibio cyn y daw datblygiad heb ei awdurdodi yn rhydd rhag camau gorfodi, ac felly’n “gyfreithlon”.¹¹
- 12.22 Tynnwyd sylw at achos *Welwyn Hatfield Council v Secretary of State and Beesley*.¹² Yn yr achos hwnnw, dyfarnodd y Goruchaf Lys, o dan amgylchiadau eithriadol, y gallai ymddygiad anonest atal ymgeisydd rhag cael tystysgrif cyfreithlondeb ar ôl i’r cyfnod gorfodi statudol ddod i ben.¹³

⁸ Papur Ymgynghori, para 12.21.

⁹ Papur Ymgynghori, para 12.21.

¹⁰ Papur Ymgynghori, paragraffau 18-106 i 18-127; a gweler **Argymhelliad 18-15**.

¹¹ Papur Ymgynghori, para 12.22.

¹² *Welwyn Hatfield Council v Secretary of State and Beesley* [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304.

¹³ Papur Ymgynghori, para 12. 24. Roedd yr ymgeisydd yn *Welwyn Hatfield* wedi newid gwedd ei dŷ a’i gelu fel ysgubor er mwyn osgoi camau gorfodi cynllunio am bedair blynedd.

- 12.23 Yn Lloegr, mae darpariaethau sy'n ymwneud ag achosion cudd o dorri rheolaeth gynllunio wedi cael eu cyflwyno ers hynny – fel adrannau 171BA i 171BC o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.¹⁴ O dan y darpariaethau hyn, gall awdurdod cynllunio wneud cais i lys ynadon am orchymyn gorfodi cynllunio, sy'n ymestyn y terfyn amser lle y gellir cymryd camau.¹⁵
- 12.24 Awgrymwyd dros dro gennym nad oedd yn fuddiol bod dwy weithdrefn sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd, un statudol ac un o dan gyfraith gyffredin. Awgrymwyd hefyd fod gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio yn achosi problemau am sawl rheswm.¹⁶ Felly, awgrymwyd na ddylai gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio gael ei chynnwys yn y Cod newydd, ond dylai *Welwyn* barhau i fod yn gymwys fel egwyddor cyfraith gyffredin (heb ei chodeiddio).
- 12.25 Cawsom 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, yr oedd 27 ohonynt yn cytuno, yr oedd dau yn ansicr, ac yr oedd un yn anghytuno.
- 12.26 Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion â'n cynnig i beidio â mabwysiadu gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio. Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol nad oedd fawr ddim diben ei mabwysiadu. Awgrymodd Liam Jones o NAPE "the PEO procedure will be problematic if introduced in Wales." O blith yr ymgynghoreion a ymatebodd, dim ond y Sefydliad Gwarchod Adeiladau Hanesyddol a awgrymodd y dylid mabwysiadu gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio:
- An alternative remedy to the concerns about Planning Enforcement Orders would be to provide for them in the new Bill, but with clarification on those areas of concern, i.e. placing a limit on the time extension for which LPAs can apply, and a facility to challenge the certificate issued by the LPA as to the date on which the breach came to its attention. Lack of training for magistrates is hardly a reason for weakening the law.
- 12.27 Cytunwn y byddai gweithdrefn ddiwygiedig, ynghyd â hyfforddiant priodol i ynadon, yn arwain at system dipyn yn well o gymharu â'r un sy'n gweithredu yn Lloegr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni fyddai'n goresgyn y cymhlethdodau sy'n deillio o ddwy weithdrefn ar wahân. At ei gilydd, credwn o hyd fod egwyddor *Welwyn Hatfield* yn well, fel y gwnaeth y rhan fwyaf o'n hymgynghoreion.
- 12.28 Awgrymodd sawl ymgynghorai y dylai'r egwyddor yn *Welwyn* gael ei chodeiddio yn y statud. Rydym yn cydymdeimlo â'r safbwynt hwn, o ystyried yr anawsterau a allai godi pe na bai yn amlwg i'r sawl sy'n darllen y statud. Fodd bynnag, penderfynwyd ar yr achos yn gymharol ddiweddar. Er gwaethaf ein barn ei fod yn amlinellu rheol gall, credwn y byddai'n rhy gynnar i godeiddio'r rheol honno ar hyn o bryd, o ystyried y posibilrwydd y caiff ei hegluro ymhellach yn y dyfodol, rhywbeth a fyddai'n cael ei ddatblygu orau gan y llysoedd. Nodwyd ar ddechrau'r prosiect hwn mai dim ond

¹⁴ Papur Ymgynghori, para 12.25.

¹⁵ Papur Ymgynghori, para 12.25.

¹⁶ Papur Ymgynghori, para 12.31.

cyfraith achosion sydd wedi ymsefydlu ac y dibynnir arni ers cyfnod maith yr oeddem yn bwriadu ei chodeiddio.¹⁷

12.29 Efallai ei bod yn ymddangos yn briodol cyfeirio'n benodol at *Welwyn Hatfield* yn y statud. Fodd bynnag, mae ein profiad o ddiwygio cyfraith trosedd wedi peri i ni ddod i'r casgliad mai anaml, os o gwbl, y bydd hyn yn briodol, a hynny oherwydd gallai achos a enwir gael ei ddiystyru, ei ddiddymu neu ei addasu fel arall gan y llysoedd yn y dyfodol, gan ddirymu'r cyfeiriad ato.

12.30 Rydym hefyd yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd gan yr Arglwydd Brown o Eaton-under-Heywood yn *Welwyn*:

I simply do not accept that amending legislation is required before this salutary principle of public policy can ever be invoked. I do recognise, however, that, as matters presently stand, it should only be invoked in highly exceptional circumstances.¹⁸

12.31 Yn ein barn ni, byddai'n anodd os nad amhosibl codeiddio'n foddhaol yr amgylchiadau lle y gellid galw ar egwyddor *Welwyn*, o ystyried y bydd pob achos o'r fath drwy ddiffiniad yn "eithriadol dros ben".

12.32 Drwy beidio â nodi egwyddor *Welwyn Hatfield* yn y Ddeddf newydd, mae risg na fydd y darlennydd yn ymwybodol ohoni. Rydym yn awgrymu y caiff y risg hon ei lliniaru drwy gyfeiriadau clir at egwyddor *Welwyn Hatfield* yng nghanllawiau'r Llywodraeth ar orfodi.

Argymhelliad 12-3.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru dynnu sylw'n glir at yr egwyddor cyfraith gyffredin a nodwyd yn *Welwyn Hatfield Council v Secretary of State* [2010] UKSC 15, [2011] 2 AC 304;**
- (2) **ni ddylai gweithdrefn y gorchymyn gorfodi cynllunio, a gyflwynwyd yn Lloegr o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gael ei chynnwys yn y Bil.**

HYSBYSIADAU RHYBUDD GORFODI

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid diwygio adran 173ZA er mwyn atal y cyfnod ar gyfer camau gorfodi rhag cael ei ymestyn am gyfnod amhenodol, er mwyn darparu naill ai: (1) y gellir cyflwyno hysbysiad rhybudd gorfodi yn ystod y cyfnod o 4 neu 10 mlynedd y gellir cymryd camau gorfodi oddi mewn iddo, ond nad yw cyflwyno hysbysiad o'r fath yn ymestyn y cyfnod hwnnw; neu (2) pan fo hysbysiad rhybudd

¹⁷ Papur Ymgynghori, paragraffau 4.54 – 4.56.

¹⁸ [2011] 2 AC 304, yn [84].

gorfodi wedi cael ei gyflwyno, fod y cyfnod ar gyfer cymryd camau gorfodi eraill yn dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad (Cwestiwn 12-4 o'r Ymgynghoriad).

- 12.33 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, yn galluogi awdurdod cynllunio i gyhoeddi hysbysiad rhybudd gorfodi. Mae hyn yn briodol pan fo'n ymddangos fod datblygiad heb ganiatâd cynllunio wedi cael ei gwblhau, ond ei bod yn eithaf tebygol, pe gwneid cais, y byddai caniatâd yn cael ei roi. Pan fo hyn yn gymwys, gall yr awdurdod gyhoeddi hysbysiad yn hysbysu'r sawl sy'n ei dderbyn y gellir cymryd camau gorfodi pellach os na ddaw cais cynllunio i law o fewn cyfnod penodedig.¹⁹
- 12.34 Nodwyd gennym hefyd fod adran 173ZA(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu nad yw cyhoeddi hysbysiad rhybudd gorfodi yn effeithio ar unrhyw bŵer arall sy'n arferadwy mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri rheolaeth gynllunio. Mae adran 171B(4)(b) yn caniatáu cymryd camau gorfodi pellach o fewn pedair blynedd i gamau gorfodi blaenorol – sydd, o dan adran 171A(2) (aa), yn cynnwys cyflwyno hysbysiad rhybudd gorfodi. Y canlyniad yw y gallai'r awdurdod ymestyn y cyfnod ar gyfer mathau eraill o gamau gorfodi am gyfnod amhenodol drwy, yn syml, gyflwyno un hysbysiad ar ôl y llall.²⁰
- 12.35 Awgrymwyd dau opsiwn posibl gennym:
- 1) peidio ag ailddatgan adran 171A(2)(aa) yn y Bil, fel y gellid cyflwyno hysbysiad rhybudd gorfodi yn ystod y cyfnod (o bedair neu ddeng mlynedd) y mae'n bosibl cymryd camau gorfodi eraill oddi mewn iddo, ond na ellid ymestyn y cyfnod hwnnw; neu
 - 2) diwygio adran 173ZA(5) fel y bydd y cyfnod ar gyfer cymryd camau gorfodi eraill, os cyflwynwyd hysbysiad rhybudd gorfodi, yn dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad.
- 12.36 Ymatebodd 32 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Roedd chwech yn amlwg o blaid yr opsiwn cyntaf ac roedd 21 yn amlwg o blaid yr ail opsiwn.
- 12.37 Nododd y rhai a oedd o blaid yr opsiwn cyntaf fod angen sicrwydd mewn perthynas â therfynau amser gorfodi. Nododd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol "we support the proposals to ensure breaches of planning control are not extended indefinitely." Dywedodd Cymdeithas Ganolog y Prisdwyr Amaethyddol "we do not believe that an enforcement warning notice should extend beyond the enforcement period."
- 12.38 Roedd y rhai a oedd o blaid yr ail opsiwn yn ei ystyried yn fanteisiol i awdurdodau cynllunio, ond ei fod yn rhoi sicrwydd ar yr un pryd ar ffurf terfyn amser penodedig. Awgrymodd CS Caerfyrddin fod yr opsiwn yn rhoi llawer mwy o eglurder o ran terfynau amser. Nododd POSW, Cyngor Sir Fynwy, CS Ceredigion, CS Caerfyrddin, CBS Castell-nedd Port Talbot, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Parciau Cenedlaethol Cymru oll "[that] option 2 is the most clear, practical and

¹⁹ Papur Ymgynghori, para 12.34.

²⁰ Papur Ymgynghori, para 12.35.

appropriate option.” Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr a Huw Williams (Geldards LLP) yn gweld bod yr opsiwn cyntaf yn creu anawsterau ymarferol pe bai hysbysiad rhybudd yn cael ei gyflwyno tuag at ddiwedd y cyfnod o bedair neu ddeng mlynedd, am y gallai'r terfyn amser fynd heibio tra bod penderfyniad ar y cais cynllunio yn cael ei wneud.

- 12.39 Ar ôl ailystyried, rydym yn cytuno mai'r ail opsiwn yw'r opsiwn gorau. Mae'n gyfaddawd rhwng y sefyllfa bresennol sy'n caniatáu estyniadau amhenodol, a'r sefyllfa lle y dylid cadw at derfynau amser yn dynn.
- 12.40 Fodd bynnag, rydym wedi cael ein hargyhoeddi, os na chaiff ein cynnig dros dro ei wneud yn fwy eglur, fod risg o bosibl y bydd estyniadau amhenodol o derfynau amser gan awdurdodau lleol sy'n methu ag ymdrin â'r achos honedig o dor-rheolaeth. Felly, rydym yn awgrymu y dylai fod yn glir drwy eiriad y ddarpariaeth newydd na ellir defnyddio'r pŵer i greu'r hyn sydd, i bob diben, yn estyniad amhenodol.
- 12.41 Mynegodd CBS Torfaen bryder y gall yr ail opsiwn gyfyngu ar y ddarpariaeth “ail gyfle” yn adran 171B(4)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n caniatáu i awdurdod gymryd camau gorfodi “pellach” o fewn pedair blynedd i'r camau gorfodi blaenorol mewn perthynas â'r un achos o dor-rheolaeth. Gwnaeth eraill bwynt tebyg. Yr enghraifft a roddwyd gan Torfaen oedd achos pan fo hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno o fewn y cyfnod o bedair blynedd ar ôl cyflwyno'r hysbysiad rhybudd gorfodi, ond ei fod yn cael ei ystyried yn ddiffygiol ar apêl. Awgrymodd Torfaen y byddai'n bwysig cadw'r hawl i gyhoeddi hysbysiad gorfodi newydd wedi'i gywiro o fewn cyfnod o bedair blynedd. Rydym yn hyderus na fydd ein hargymhelliad yn effeithio'n andwyol ar y ddarpariaeth “ail gyfle” yn adran 171B(4)(b) nac yn ei disodli, ac argymhellwn y dylai'r adran gael ei hailddatgan yn y Bil ar ei ffurf bresennol.

Argymhelliad 12-4.

Argymhellwn y dylai adran 173ZA o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig fel y bydd y cyfnod ar gyfer camau gorfodi eraill, os cyhoeddwyd hysbysiad rhybudd gorfodi, yn dechrau ar y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad, ond na ellir ymestyn y terfyn amser ymhellach drwy gyhoeddi hysbysiadau rhybudd gorfodi ychwanegol mewn perthynas â'r un mater.

HYSBYSIADAU STOP DROS DRO

- 12.42 Yn ein Papur Ymgynghori, tynnwyd sylw at y ffaith, pan fo rheolaeth gynllunio wedi cael ei thorri, ac mae'r awdurdod cynllunio yn ystyried cymryd camau pellach, y gall gyhoeddi “hysbysiad stop dros dro” o dan adran 171E o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).²¹ Effaith hysbysiad o'r fath yw ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgarwch tramgwyddus ddod i ben ar unwaith.²² Daw'r hysbysiad i ben ar ôl 28 diwrnod, gyda'r disgwyliad y bydd yr

²¹ Papur Ymgynghori, para 12.38.

²² Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171E(3), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 2004, a 52.

awdurdod wedi cymryd rhyw fath arall o gamau gorfodi yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae peidio â chydymffurfio â hysbysiad stop dros dro yn drosedd, y gellir ei chosbi drwy ddirwy.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop dros dro, a geir ar hyn o bryd yn adran 171F(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw annedd (a ddiffinnir i gynnwys tŷ a fflat) (Cwestiwn 12-5 o'r Ymgynghoriad).

- 12.43 Nodwyd gennym, yn rhinwedd adran 171F, nad yw'r pŵer i gyhoeddi hysbysiad stop dros dro o dan adran 171F ar gael i wahardd defnyddio unrhyw adeilad (a fyddai'n cynnwys rhan o adeilad²³) fel tŷ annedd.²⁴ Cynigiwyd dros dro gennym y dylid gwneud y sefyllfa yn fwy eglur a nodi'n glir na ddylai hysbysiad stop dros dro wahardd defnyddio unrhyw adeilad, na rhan o adeilad, fel annedd – nid dim ond fel tŷ annedd.²⁵
- 12.44 Roedd pob un o'r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno. Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol fod y cynnig yn ymddangos yn rhesymegol. Nododd CS Caerfyrddin "this makes clear the restriction in relation to all types of dwelling houses." Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf "there should be clarity to ensure that a temporary stop notice applies in relation to any dwelling."

Argymhelliad 12-5.

Argymhellwn y dylai'r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop dros dro, a geir ar hyn o bryd yn adran 171F(1)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw annedd.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid gwneud y canlynol: (1) dylai hysbysiad stop dros dro ddod yn weithredol ar yr adeg ar y dyddiad a nodir ynddo, sef pryd y caiff hysbysiad ei arddangos ar y tir dan sylw fel arfer; (2) dylai fod yn weithredol am 28 diwrnod (yn dechrau ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei arddangos); (3) dylai'r hysbysiad gael ei arddangos ar y tir, mor agos â phosibl i'r man lle mae'r gweithgarwch y mae'n ymwneud ag ef yn digwydd, gan nodi bod hysbysiad stop dros dro wedi cael ei gyhoeddi, a chrynhoi effaith yr hysbysiad stop dros dro, a nodi'r cyfeiriad (ac, os yw'n gymwys, y wefan) lle y gellir gweld copi llawn o'r hysbysiad stop dros dro. (4) dylai fod gan yr awdurdod bŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o'r hysbysiad stop dros dro i berchennog a meddiannydd y tir ac i eraill fel y bo'n briodol (Cwestiwn 12-6 o'r Ymgynghoriad).

- 12.45 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, yn rhinwedd adran 171E(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fod yn rhaid i awdurdod cynllunio sydd wedi cyhoeddi hysbysiad stop dros dro arddangos copi ohono (a datganiad ynghylch ei effaith a'r cosbau am

²³ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 336.

²⁴ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171F(1)(a).

²⁵ Gweler **Argymhelliad 18-15.**

beidio â chydymffurfio) ar y tir y mae'n ymwneud ag ef. Gall yr awdurdod hefyd gyflwyno'r hysbysiad i'r

- 1) person y cred ei fod yn ymgymryd â'r gweithgarwch sy'n gyfystyr â thorri rheolaeth gynllunio,
- 2) person y cred fod ganddo fuddiant yn y tir, neu
- 3) person y cred mai ef yw meddiannydd y tir.²⁶

12.46 Noder nad yw hyn yn cyfeirio at y perchennog, y meddiannydd ac ati; dim ond y person yr ymddengys mai ef yw'r perchennog, y meddiannydd ac ati.

12.47 Nodwyd gennym fod y gofyniad i arddangos hysbysiad safle ond yn cyfeirio at y tir lle mae'r gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd. Gallai hyn achosi problemau yn achos darn mawr o dir, er enghraifft mewn ardal wledig, pe bai hysbysiad yn cael ei arddangos rywle ar y tir sydd ymhell o'r man lle roedd gweithgarwch yn digwydd mewn gwirionedd. Nid yw'n ymddangos yn fuddiol ychwaith fod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ei hun ar y tir, oherwydd gall yr hysbysiad gynnwys sawl tudalen a bod wedi'i eirio mewn iaith dechnegol.²⁷

12.48 Nodwyd gennym hefyd fod hysbysiad stop dros dro yn weithredol "o'r adeg" y caiff ei arddangos gyntaf, sy'n golygu, mae'n debyg, ei fod yn weithredol yn union ar ôl iddo ddechrau cael ei arddangos – er nad yw'n glir beth sy'n digwydd os caiff yr hysbysiad ei hun ei arddangos ond heb y datganiad gofynnol ynghylch ei effaith.²⁸ Mae'r hysbysiad yn weithredol am gyfnod o 28 diwrnod "ar" y *diwrnod* y caiff ei arddangos, ond nid yw'n glir p'un a yw'r cyfnod hwnnw yn dechrau (ac yn gorffen) ar yr union adeg y caiff yr hysbysiad ei arddangos, neu ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod.²⁹ Mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag adran 173(8), sy'n darparu bod hysbysiad gorfodi yn weithredol "ar" y *dyddiad* a nodir ynddo – sy'n golygu ar ddechrau'r diwrnod hwnnw.

12.49 Cynigiwyd dros dro gennym y dylai hysbysiad ddod yn weithredol ar yr adeg a'r dyddiad a nodir ynddo, sef pryd y caiff hysbysiad ei arddangos ar y tir dan sylw fel arfer.³⁰ Yna, dylai fod yn weithredol am gyfnod o 28 diwrnod, yn dechrau ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei arddangos. Dylai'r hysbysiad gael ei arddangos ar y tir, mor agos â phosibl i'r man lle mae'r gweithgarwch yn digwydd, a dylai gynnwys hysbysiad sy'n nodi bod hysbysiad stop dros dro wedi cael ei gyhoeddi, a chrynhoi effaith yr hysbysiad, gan gynnwys y dyddiad y daw yn weithredol, a nodi'r cyfeiriadau (mewn lleoliad ffisegol a, lle y bo ar gael, wefan) lle y gellir gweld copïau llawn o'r hysbysiad.

²⁶ Papur Ymgynghori, para 12.46.

²⁷ Papur Ymgynghori, para 12.48.

²⁸ Papur Ymgynghori, para 12.49; Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171E(6).

²⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 171E(7).

³⁰ Papur Ymgynghori, para 12.50.

- 12.50 O blith y 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, cytunodd 30 â'n cynnig dros dro.
- 12.51 Roedd Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn o'r farn y byddai ein cynnig yn gwneud hysbysiadau stop yn fwy effeithiol. Dywedodd Allan Archer "[the proposal] would provide clarification of the issues identified and should be supported." Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y byddai'r newidiadau yn dderbyniol.
- 12.52 Cafwyd rhywfaint o anghytuno o ran p'un a ddylai fod dyletswydd i gyflwyno copi o'r hysbysiad stop dros dro i berchennog y tir, os oedd yn hysbys. Roedd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd o'r farn "that any formal notice should always be served on both the owner and the occupier." Awgrymodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi y dylai'r gofyniad i gyflwyno'r hysbysiad i'r perchennog, os yw'n hysbys, fod yn 'ddyletswydd' gofyniad gan mai ar y perchennog y mae'r gofyniad i ymateb i'r hysbysiad.
- 12.53 Ar y llaw arall, cytunodd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd (PEBA) "[that] the authority should have a power rather than a duty to serve copies of the TSN" oherwydd "it is important to avoid circumstances in which an owner/occupier could become aware of a temporary stop notice before it has been displayed" – gan y gallai hyn roi cyfle i feddianydd neu berchennog tir ddechrau torri rheolaeth gynllunio (megis dod â charafannau ar y tir) heb gosb droseddol. Nododd Cyngor Dinas Casnewydd "ownership of some land is difficult to ascertain particularly when it is not registered."
- 12.54 At ei gilydd, ni chredwn y byddai'n ddymunol troi'r pŵer presennol i hysbysu yn ddyletswydd statudol i wneud hynny. Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y bydd yn haws cael collfarn am beidio â chydymffurfio os rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i fodolaeth yr hysbysiad.³¹ Bydd awdurdod doeth yn hysbysu perchennog y tir, os yw'n hysbys, ar ôl arddangos yr hysbysiad. Yn ein barn ni, dylai'r arfer gorau hwn gael ei adlewyrchu mewn canllawiau gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, rydym wedi ein darbwyllo gan bwynt PEBA y byddai creu dyletswydd i hysbysu'r perchennog yn cynyddu'r risg o sefyllfaoedd pan fo perchennog yn dod yn ymwybodol o hysbysiad stop dros dro cyn iddo gael ei arddangos a chyn iddo ddod yn weithredol. At hynny, y personau y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt fwyaf yw'r rhai ar y tir sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch dan sylw, a ddaw yn ymwybodol o'r hysbysiad drwy ei arddangos.

Argymhelliad 12-6.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **dylai hysbysiad stop dros dro ddod yn weithredol ar yr adeg a'r dyddiad a nodir ynddo, sef pryd y caiff hysbysiad ei arddangos ar y tir dan sylw fel arfer;**
- (2) **dylai fod yn weithredol am 28 diwrnod llawn (yn dechrau ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei arddangos);**

³¹ Papur Ymgynghori, para 12.51.

- (3) dylai'r hysbysiad sy'n cael ei arddangos ar y tir, mor agos â phosibl i'r man lle mae'r gweithgarwch y mae'n ymwneud ag ef yn digwydd:
- nodi bod hysbysiad stop dros dro wedi cael ei gyhoeddi;
 - crynhoi effaith yr hysbysiad stop dros dro;
 - nodi'r cyfeiriad (ac, os yw'n gymwys, y wefan) lle y gellir gweld copi llawn o'r hysbysiad stop dros dro;
- (4) dylai fod gan yr awdurdod bŵer (ond nid dyletswydd) i gyflwyno copïau o'r hysbysiad stop dros dro i berchennog a meddiannydd y tir ac i eraill fel y bo'n briodol;
- (5) dylai canllawiau Llywodraeth Cymru bwysleisio, ar ôl i'r hysbysiad gael ei arddangos, y dylai copïau o'r hysbysiad stop dros dro gael eu cyflwyno o fewn amser rhesymol i berchennog a meddiannydd y tir, os yw'r naill neu'r llall yn hysbys i'r awdurdod cynllunio.

Cynigiwyd dros dro gennym: (1) y dylai fod yn drosedd fynd yn groes i hysbysiad stop dros dro sydd wedi dod yn weithredol (yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig neu sydd wedi cael ei arddangos ar y safle); a (2) y dylai profi nad yw copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig, ac nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am ei fodolaeth fod yn amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath (Cwestiwn 12-7 o'r Ymgynghoriad).

- 12.55 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, o dan adran 171G(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ei bod yn drosedd i berson fynd yn groes i hysbysiad stop dros dro sydd wedi cael ei gyflwyno iddo neu iddi, neu sydd wedi cael ei arddangos ar y tir.
³²Gwnaethom nodi dwy broblem gyda'r ddarpariaeth hon:
- 1) gellir erlyn person y cyflwynir hysbysiad iddo neu iddi am beidio â chydymffurfio hyd yn oed os nad oes hysbysiad yn cael ei arddangos ar y tir;
 - 2) gall person na chyflwynir hysbysiad iddo neu iddi osgoi erlyniad hyd yn oed os oes hysbysiad wedi cael ei arddangos yn amlwg ar y tir.
- 12.56 Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r drosedd o dan adran 171G ymwneud â mynd yn groes i hysbysiad sydd wedi dod yn weithredol, yn hytrach nag un y mae copi ohono wedi cael ei gyflwyno neu ei arddangos ar y tir.³³
- 12.57 Ymatebodd 33 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn, yr oedd 30 ohonynt yn cytuno ac yr oedd dau ohonynt yn anghytuno – ym mhob achos heb sylwadau ar y cyfan.

³² Papur Ymgynghori, para 12.55.

³³ Papur Ymgynghori, para 12.56.

Argymhelliad 12-7.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) dylai fod yn drosedd mynd yn groes i hysbysiad stop dros dro sydd wedi dod yn weithredol (yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig neu ei arddangos ar y safle, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd);
- (2) dylai profi
 - nad oedd copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig;
 - nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo neu iddi wybod, am fodolaeth yr hysbysiadfod yn amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath.

HYSBYSIADAU TORRI AMODAU

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau torri amodau, a geir ar hyn o bryd yn adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu diwygio fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am dorri'r amodau (yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno) (Cwestiwn 12-8 o'r Ymgynghoriad).

12.58 Yn ein Papur Ymgynghori, trafodwyd hysbysiadau torri amodau o dan adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y gellir eu cyhoeddi os yw caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ond bod un o amodau'r caniatâd hwnnw wedi cael ei dorri gan y datblygwr.³⁴ Nodwyd gennym mai prif fantais hysbysiadau torri amodau o'u cymharu â hysbysiadau gorfodi yw nad oes unrhyw hawl i apelio mewn perthynas â'r cyntaf, felly ni chaniateir herio teilyngdod amod (y rheswm dros hyn yw y dylid bod wedi herio amod pan gafodd ei osod gyntaf, nid ar ôl dechrau ymgymryd â'r datblygiad).

12.59 Nodwyd gennym, ar hyn o bryd, fod yn rhaid i hysbysiad torri amodau gael ei gyflwyno i unrhyw berson sydd wedi ymgymryd neu sy'n ymgymryd â'r datblygiad, neu unrhyw un sy'n rheoli'r tir.³⁵ Daw'r hysbysiadau yn weithredol ar unwaith, ond rhaid cydymffurfio erbyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn dechrau ar y dyddiad y cafodd ei gyflwyno.³⁶ Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r darpariaethau ynglŷn â hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â thorri amodau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad gael ei "gyhoeddi", gyda chopïau'n cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn.

³⁴ Papur Ymgynghori, paragraffau 12.58 – 12.59.

³⁵ Papur Ymgynghori, para 12.59.

³⁶ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 187A(7).

- 12.60 Nodwyd gennym hefyd nad oes unrhyw ofyniad i gopi o hysbysiad torri amodau gael ei arddangos ar neu ger y tir. Gall hyn fod yn anfoddhaol os bydd dau neu ragor o bobl yn gysylltiedig â thorri amod, gan arwain at gyflwyno hysbysiadau ar wahân i bob un, o bosibl ar ddyddiadau gwahanol, gan arwain at amseroedd cydymffurfio gwahanol i bob un dan sylw.
- 12.61 Cynigiwyd dros dro gennym y dylid sicrhau bod y darpariaethau amseru sy'n ymwneud â hysbysiadau torri amodau yn unol â'r rhai sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi, drwy ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gael ei "gyhoeddi", a dod i rym ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.³⁷ Yna, gellid cyflwyno copïau – nid o reidrwydd ar yr un dyddiad – i'r rhai priodol yn nhyb yr awdurdod.
- 12.62 Roedd pob un o'r 31 o ymgynghoreion a ymatebodd yn cytuno.
- 12.63 Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr "the desirability of adopting as far as possible a common approach to the service and coming into effect of notices related to the enforcement of planning control." Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol "this proposal appears to be a logical approach." Dywedodd Liam Jones o NAPE "bringing [breach of condition notices] in line with enforcement notices would avoid any confusion in relation to different notices being issued."
- 12.64 Awgrymodd y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol y dylai fod hawl i apelio yn erbyn hysbysiad torri amodau ar gyfer datblygiadau penodol ar y sail "[that] some developments may last for many years and circumstance may change. Conditions may therefore become out of date." Er ein bod yn cydymdeimlo â'r safbwynt hwn, yn ein barn ni, y rhwymedi yw cais i amrywio'r caniatâd, yn hytrach na thorri'r amod yn unochrog.

Argymhelliad 12-8.

Argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau torri amodau, a geir ar hyn o bryd yn adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu diwygio fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am dorri'r amodau (yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno).

HYSBYSIADAU GORFODI

Cynnwys hysbysiad gorfodi a'r nodyn cysylltiedig

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai fod yn ofynnol i hysbysiad gorfodi bennu (1) y camau y mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'n rhaid iddynt ddod i ben, er mwyn cyflawni, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, bob un neu unrhyw un o'r dibenion a nodir yn adran 173(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a

³⁷ Papur Ymgynghori, para 12.62.

Thref 1990; a (2) pa un neu pa rai o'r dibenion hynny y tybia y bydd/byddant yn cael ei gyflawni/eu cyflawni drwy gymryd y camau hynny (Cwestiwn 12-9 o'r Ymgynghoriad).

- 12.65 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym mai'r cam gorfodi y deuir ar ei draws amlaf yw cyhoeddi hysbysiad gorfodi.³⁸ Mae hysbysiad gorfodi yn hysbysiad sy'n nodi'r materion yr ymddengys i'r awdurdod cynllunio eu bod yn gyfystyr â thorri rheolaeth gynllunio, ac sy'n pennu'r camau y mae'n awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd neu'r gweithgareddau y mae'n rhaid iddynt ddod i ben.
- 12.66 Rydym wedi crybwyll bod adran 173(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad gorfodi bennu'r camau i'w cymryd, neu'r gweithgareddau y mae'n rhaid iddynt ddod i ben, "in order to achieve, wholly or partly, any of the following purposes". Y dibenion yw:
- 1) unioni'r achos o dorri amod
 - drwy orfodi i unrhyw ddatblygiad gydymffurfio â thelerau (gan gynnwys amodau neu gyfyngiadau) unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd mewn perthynas â'r tir,
 - drwy ddirwyn unrhyw ddefnydd o dir i ben, neu
 - drwy adfer y tir i'w gyflwr cyn i'r tor-amod ddigwydd³⁹;
 - 2) unioni unrhyw niwed i amwynder a achoswyd gan y tor-amod.⁴⁰
- 12.67 Nodwyd gennym yn *Oxfordshire CC v Wyatt Bros (Oxford) Ltd*, i'r Llys Apêl ddyfarnu y gallai awdurdod cynllunio ei gwneud yn ofynnol cymryd camau o ran y ddau ddiben penodedig, ac felly y dylai'r gair "or" ar ddiwedd adran 173(4)(a) ddarllen "and/or".⁴¹
- 12.68 Cynigiwyd dros dro gennym y dylid diwygio adran 173(3) i'w gwneud yn ofynnol i hysbysiad bennu:
- 1) y camau y mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'w cymryd [etc] er mwyn cyflawni, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, un neu ragor o'r dibenion a nodir yn adran 173(4);
 - 2) pa un neu pa rai o'r dibenion hynny y tybia y bydd/byddant yn cael ei gyflawni/eu cyflawni drwy gymryd y camau hynny.
- 12.69 O blith y 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cynnig hwn, roedd 21 yn cytuno, roedd tri yn ansicr ac roedd saith yn anghytuno.
- 12.70 Nododd sawl ymgynghorai y byddai mwy o eglurder o ganlyniad i'r cynnig. Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y bydd y cynnig yn gwneud hysbysiadau gorfodi

³⁸ Papur Ymgynghori, para 12.66.

³⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 173(3)(a); ac wedi ychwanegu mewnnoliadau er eglurder.

⁴⁰ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 173(3)(b).

⁴¹ *Oxfordshire CC v Wyatt Bros (Oxford) Ltd* [2005] EWHC 2402 (QB); Papur Ymgynghori, para 12.71; Papur Cwmpasu, paragraffau 5.25 i 5.27.

yn fwy eglur. Nododd CBS Rhondda Cynon Taf “[that the proposed amendments] will make it clearer as to the requirements that can be specified in an enforcement notice.”

- 12.71 Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o’r ymgynghoreion yn amau gwerth y cynnig, gan ofyn pa broblem y bwriedir iddo ei datrys. Nododd Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn a Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol “[that the proposal] does not introduce any practical difference in terms of the effect of a notice”. Dywedodd CBS Torfaen “[it was] not entirely clear what purpose this would serve.” Awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd “[that our proposal] would not be helpful to anyone who is served with an enforcement notice.” Nododd Liam Jones o NAPE

[We] can see the benefit of inclusion of the words ‘all or any’ as set out in (1) but don’t consider that LPAs should need to further say which one or more of the purposes it considers will be achieved by taking those steps as set out in (2) – The reasons for serving the enforcement notice will set out why the LPA has taken action.

- 12.72 Mynegwyd pryder hefyd gan ymgynghoreion y byddai’r cynnig yn arwain at sail apelio newydd yn seiliedig ar y diben datganedig. Holodd yr Arolygiaeth Gynllunio “[whether the proposal] would have implications for appealing a notice.”
- 12.73 Ar ôl ailystyried, rydym yn cytuno na fyddai ein cynnig dros dro yn newid y gofynion presennol o ran sylwedd, ond y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol. Drwy ail-lunio’r gofynion i nodi diben y camau gorfodi nid oeddem yn bwriadu caniatáu sail apelio newydd ar sail y diben hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gellid bod wedi dehongli’r ddarpariaeth newydd awgrymedig, fel y’i lluniwyd, fel un sy’n gosod gofyniad newydd neu fwy beichus ar awdurdodau cynllunio. O leiaf, gallai ffurf statudol newydd fod wedi codi cwestiynau ynghylch p’un a fwriadwyd cyflwyno gofyniad newydd.
- 12.74 Er mwyn osgoi’r posibilrwydd o ymglyfreitha amhroffidiol ar y pwynt hwn, rydym bellach yn argymhell y dylai adran 173(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei chynnwys yn y Bil fel y saif ar hyn o bryd, ond wedi’i diwygio’n addas i ymgorffori’r dehongliad o’i hystyr a nodwyd gan y llys yn *Oxfordshire CC v Wyatt Bros (Oxford) Ltd*.

Argymhelliad 12-9.

Argymhellwn y dylai adran 173(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig i’w gwneud yn glir y gall awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd mewn perthynas â’r ddau ddiben a bennwyd, fel y nodwyd yn *Oxfordshire CC v Wyatt Bros (Oxford) Ltd* [2005] EWHC 2402 (QB).

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai fod darpariaeth benodol yn y Bil, sy’n ymgorffori’r egwyddor yn *Murfitt v Secretary of State* ac achosion canlyniadol, i’r perwyl, pan fo hysbysiad gorfodi sy’n honni newid defnydd tir perthnasol yn cael ei gyflwyno, y gall yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i waith penodol gael ei waredu yn ogystal â rhoi’r

gorau i'r defnydd heb awdurdod, ar yr amod bod y gwaith hwnnw yn rhan annatod o'r newid defnydd perthnasol (Cwestiwn 12-10 o'r Ymgynghoriad).

- 12.75 O dan egwyddor *Murfitt*, gall hysbysiad gorfodi yn ddilys ei gwneud yn ofynnol gwaredu unrhyw ddatblygiad gweithredol cysylltiedig os yw'n rhan o'r datblygiad y cymerir camau gorfodi yn ei erbyn.⁴² Cafodd yr egwyddor hon ei goleddfu yn achos *Bowring v Secretary of State*, pan ddyfarnodd y llys fod yn rhaid i'r datblygiad cysylltiedig fod "integral to or part and parcel of" y datblygiad dan sylw – ond aeth yn ei flaen i nodi na fyddai hynny'n ddigonol pe bai'r gwaith wedi cael ei wneud at ddefnydd gwahanol, a chyfreithlon, ac y gellid ei ddefnyddio at y diben cyfreithlon, arall hwnnw hyd yn oed os daeth y defnydd heb awdurdod i ben.⁴³
- 12.76 Cynigiwyd dros dro y dylai egwyddor *Murfitt* gael ei chodeiddio yn y Bil. Roedd pob un o'r 28 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno.
- 12.77 Gwnaed ychydig o sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r cynnig. Dywedodd POSW, Cyngor Sir Fynwy, CS Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Parciau Cenedlaethol Cymru oll wrthym eu bod yn croesawu hyn.
- 12.78 Gwnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn a Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol oll awgrymiadau amrywiol y dylai'r gofyniad "annatod" a nodwyd yn *Bowring* gael ei ehangu i gynnwys datblygiad gweithredol:
- 1) sydd wedi hwyluso'r newid defnydd, neu
 - 2) sy'n atodol iddo, neu
 - 3) sy'n ymwneud â gweithrediad canlyniadol y defnydd newydd.
- 12.79 O ganlyniad, ni allai datblygiad gweithredol cysylltiedig a all fod yn gyfreithlon os ymgwymerwyd ag ef at ddiben gwahanol fod yn destun hysbysiad gorfodi.
- 12.80 Rydym yn cytuno y byddai'n ddymunol diwygio ein cynnig dros dro er mwyn ehangu'r egwyddor a sefydlwyd yn *Murfitt* yn unol â'r penderfyniad yn *Bowring*.

Argymhelliad 12-10.

Argymhellwn y dylai fod darpariaeth benodol yn y Bil, sy'n ymgorffori'r egwyddor yn *Murfitt v Secretary of State* a *Bowring v Secretary of State*, i'r perwyl, pan fo hysbysiad gorfodi sy'n honni newid defnydd tir perthnasol yn cael ei gyflwyno, y gall yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i waith penodol gael ei waredu yn ogystal â rhoi'r gorau i'r defnydd heb awdurdod, ar yr amod bod y gwaith hwnnw wedi cael ei wneud ar neu ar ôl adeg y newid defnydd perthnasol a'i fod yn rhan annatod o'r newid neu weithrediad canlyniadol y defnydd newydd.

⁴² *Murfitt v Secretary of State* (1980) 40 P&CR 254.

⁴³ *Bowring v Secretary of State* [2013] EWHC 1115 (Gweinyddol); [2013] JPL 1417.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r rheoliadau perthnasol ei gwneud yn ofynnol i'r nodyn esboniadol sy'n gysylltiedig â hysbysiad gorfodi gynnwys datganiad (yn unol â'r egwyddor yn *Mansi v Elstree RDC*) i'r perwyl nad yw'r hysbysiad yn cyfyngu ar hawliau unrhyw berson i ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad heb gais cynllunio y gellid bod wedi ymgymryd ag ef yn union cyn i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi (Cwestiwn 12-11 o'r Ymgynghoriad).

- 12.81 O dan egwyddor *Mansi*, mae'n rhaid i hysbysiad gorfodi beidio â cheisio atal perchennog y tir rhag ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd y gallai'r tir fod wedi cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon hyd at gyhoeddi'r hysbysiad. Yn achos *Mansi* ei hun, cyhoeddwyd hysbysiad gorfodi mewn perthynas â gwerthu cynnyrch garddwriaethol oddi ar y safle mewn tŷ gwydr. Fodd bynnag, o dan yr hysbysiad, bu'n ofynnol rhoi gorau i bob gwerthiant manwerthu. Dyfarnodd y llys y dylid diwygio'r hysbysiad er mwyn caniatáu gwerthu cynnyrch ar y safle, a oedd wedi cael caniatâd cyn i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi.⁴⁴
- 12.82 Argymhellwyd gennym y dylai egwyddor *Mansi* gael ei chydabod yn y Cod, ond yn y nodyn esboniadol sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad gorfodi, a ragwelir gan adran 173(10), yn hytrach nag yn yr hysbysiad ei hun.⁴⁵
- 12.83 O blith y 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 22 yn cytuno, roedd tri yn ansicr ac roedd tri yn anghytuno.
- 12.84 Cytunodd Cyngor Dinas Casnewydd ar y sail bod y datganiad y cynigiwyd gennym y dylai fod ym mhob hysbysiad gorfodi yn ddatganiad safonol. Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf "[that such a statement] would provide clarity to the recipient of an enforcement notice." Cytunodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol oherwydd "this situation often arises during enforcement notice appeals." Fodd bynnag, rhybuddiodd "the drafting of the note is an important factor, to ensure it is fully understood by the recipient."
- 12.85 Yn yr un modd, nododd Cyngor Caerdydd "a simple explanatory note may be useful but it should not confuse the recipient of the Notice to the effect that a previous use may continue on land which could also be unauthorised".
- 12.86 Roedd CBS Caerffili a POSW De-ddwyrain Cymru yn anghytuno â'r cynnig oherwydd "this may make the notice, which is complex enough for members of the public, more confusing." Roedd CBS Torfaen yn anghytuno ar y sail "[that] the recipient of a notice would then expect the authority to tell them what they could have done without the need for planning permission."
- 12.87 Yn ein barn ni, manteision cynnwys cyfeiriad at egwyddor *Mansi* yn y materion i'w cynnwys yn y nodyn sy'n gysylltiedig â hysbysiad gorfodi yw y byddai'n gwneud effaith yr hysbysiad yn fwy eglur mewn rhai achosion. Ar y llaw arall, mewn llawer o achosion, bydd yr egwyddor yn amherthnasol – ac mewn rhai achosion gallai

⁴⁴ *Mansi v Elstree RDC* (1964) 16 P&CR 153, yn unol â'r Barnwr Widgery ar dud 161.

⁴⁵ Gweler OS 2017/530, rheoliad 7.

hysbysiad o'r fath a ragwelir achosi mwy o ddrwsych yn hytrach na bod yn ganllaw. Nodwn hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Cylchlythyr 24/97 *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio* cyn hir, ac yn ymgorffori canllawiau diweddarau yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu. At ei gilydd, felly, rydym o'r farn y byddai'n fwy priodol ymgorffori cyngor ar *Mansi* yn y Llawlyfr o bosibl.

Argymhelliad 12-11.

Argymhellwn y dylai canllawiau Llywodraeth Cymru esbonio goblygiadau'r egwyddor yn *Mansi v Elstree RDC*, i'r perwyl nad yw hysbysiad gorfodi yn cyfyngu ar hawliau unrhyw berson i ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad heb gais cynllunio y gellid bod wedi ymgymryd ag ef yn gyfreithlon yn union cyn cyhoeddi'r hysbysiad.

Apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil hepgor adran 177(5) a (6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â chais am ganiatâd cynllunio y tybir ei fod wedi'i wneud gan apelydd sy'n dibynnu ar sail (a) yn adran 174(2). Yn lle hynny, dylai ddarparu y gall Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar apêl sy'n cynnwys sail (a) roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r materion yr honnir ei fod/eu bod yn gyfystyr â thorri rheolaeth; diddymu'r amod yr honnir iddo gael ei dorri; neu gyhoeddi tystysgrif cyfreithlondeb, i'r graddau y maent yn penderfynu bod y materion yr honnir yn yr hysbysiad eu bod yn gyfystyr â thorri rheolaeth yn gyfreithlon mewn gwirionedd (Cwestiwn 12-12 o'r Ymgynghoriad).

- 12.88 Gall y sawl sy'n derbyn copi o hysbysiad gorfodi apelio i Weinidogion Cymru ar y seiliau a bennwyd yn adran 174(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁴⁶ Nodwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori mai un o'r seiliau pwysicaf yn ymarferol yw sail (a) – “in respect of any breach of planning control which may be constituted by the matters stated in the notice, planning permission ought to be granted or, as the case may be, the condition or limitation concerned ought to be discharged”.⁴⁷
- 12.89 Mae adran 177(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu, pan fo apêl yn dibynnu ar sail (a) “[the appellant is] deemed to have made an application for planning permission in respect of the matters stated in the enforcement notice as constituting a breach of planning control.” Gelwir hyn yn gais tybiedig.
- 12.90 Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru roi caniatâd cynllunio wrth benderfynu ar apêl o dan adran 174 sut bynnag.⁴⁸ Mae adran 177(6) yn nodi y caiff unrhyw ganiatâd a roddir gan Weinidogion Cymru ei drin fel caniatáu'r cais tybiedig.
- 12.91 Nid oeddem yn ymwybodol o unrhyw reswm cymhellol pam mae angen cais tybiedig yng ngoleuni pwerau Gweinidogion Cymru i roi caniatâd ar apêl. Felly, cynigiwyd dros

⁴⁶ Papur Ymgynghori, para 12.95.

⁴⁷ Papur Ymgynghori, para 12.95.

⁴⁸ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 177(1)(a).

dro gennym na ddylai adran 177(5) nac adran 177(6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu cynnwys yn y Cod.

- 12.92 O blith y 28 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 23 yn cytuno, roedd tri yn ansicr ac roedd dau yn anghytuno.
- 12.93 Awgrymodd sawl rhanddeiliad y byddai'r cynnig yn gwneud rôl Gweinidogion Cymru yn fwy eglur ac yn symleiddio'r broses apelio. Disgrifiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y cynnig dros dro fel "welcome simplification". Cytunodd PEBA ar y sail "[that] it is not proposed to remove the requirement to pay a fee."
- 12.94 Nid oedd y rhai a atebodd 'na' i'n cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn herio sylwedd y cynnig dros dro i bob golwg. Roedd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad yn anghytuno ar y sail bod y cynnig yn gyfystyr â dileu sail (a), ond nid oedd hynny'n fwrriad gennym. Mynegodd Cyngor Dinas Casnewydd bryder y gallai ein diwygiad arwain at y posibilrwydd bod datblygiadau heb awdurdod yn cael caniatâd mewn ymateb i apêl ar sail (a); ond dyna'r sefyllfa eisoes.
- 12.95 Awgrymodd yr Arolygiaeth Gynllunio y byddai'n fwy clir cyfyngu cwmpas gweithredoedd Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar apêl gan gynnwys ar sail (a) i'r elfennau hynny o'r achos honedig o dor-rheolaeth sy'n destun yr apêl ar sail (a) yn hytrach nag unrhyw un neu bob un o'r achosion honedig o dor-rheolaeth. Felly, er enghraifft, os bydd hysbysiad yn honni dau achos o dor-rheolaeth, X ac Y, gellir apelio mewn perthynas ag X ar sail (a) (y dylid rhoi caniatâd) ac mewn perthynas ag Y ar sail (c) (dim achos o dorri rheolaeth gynllunio). Yr awgrym oedd na ddylai fod gan yr arolygydd sy'n penderfynu ar yr apêl bŵer i ganiatáu'r apêl ar sail (a) mewn perthynas â'r materion yr honnir eu bod yn gyfystyr â thor-rheolaeth Y – gan nad oes unrhyw dystiolaeth gan yr awdurdod o bosibl ynghylch teilyngdod cynllunio'r materion hynny.
- 12.96 Rydym yn cytuno â'r pryder hwnnw, ac rydym o'r farn y dylai pŵer yr arolygydd i roi caniatâd cynllunio neu ddiddymu unrhyw amod neu gyfyngiad – a geir ar hyn o bryd yn adran 177(1)(a) a (b) – fod wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a fu'n destun unrhyw apêl ar sail (a). Yn yr un modd, dylai'r gallu i roi tystysgrif cyfreithlondeb o dan adran 177(1)(c) fod wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a fu'n destun apêl o dan (c) neu (d) (dim tor-rheolaeth; neu dim camau gorfodi yn bosibl).

Argymhelliad 12-12.

Argymhellwn y dylai'r Bil:

- (1) **hepgor adran 177(5) a (6) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud â chais am ganiatâd cynllunio y tybir ei fod wedi'i wneud gan apelydd sy'n dibynnu ar sail (a) yn adran 174(2) (dylai caniatâd fod wedi'i roi ar gyfer unrhyw fater y nodwyd yn yr hysbysiad gorfodi ei fod yn gyfystyr â thor-rheolaeth);**
- (2) **ddarparu, yn lle hynny, y gall Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl o dan adran 174, wneud pob un neu unrhyw un o'r canlynol:**

- mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion sy'n sail i apêl o dan sail (a), rhoi caniatâd cynllunio neu ddiddymu unrhyw amod neu gyfyngiad yr honnir ei fod wedi cael ei dorri;
- mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion sy'n sail i apêl o dan sail (c) neu (d), cyhoeddi tystysgrif cyfreithlondeb, i'r graddau y maent yn penderfynu bod y materion hynny yn gyfreithlon mewn gwirionedd.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai sail (e) y gellir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi yn unol â hi (o dan adran 174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) gyfeirio at fethiant i gyflwyno copiâu o'r hysbysiad fel sy'n ofynnol gan adran 172(2) (sy'n cyfeirio at ei gyflwyno i berchenogion a meddianwyr etc) yn hytrach nag fel sy'n ofynnol gan adran 172 (sydd hefyd yn cyfeirio at derfynau amser ar gyfer cyflwyno) (Cwestiwn 12-13 o'r Ymgynghoriad).

- 12.97 Mae adran 174(2)(e) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad gorfodi apelio ar y sail na chafodd copiâu o'r hysbysiad eu cyflwyno fel sy'n ofynnol gan adran 172. Mae adran 172(3) yn cynnwys y gofyniad y bydd yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno ddim mwy nag 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd ei gyhoeddi, ac o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad a nodir ynddo fel y dyddiad y daw yn weithredol.
- 12.98 O dan adran 285(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ni ellir herio dilysrwydd hysbysiad gorfodi mewn perthynas â sail o dan Ran 7 o'r Ddeddf (sy'n cynnwys pob sail yn adran 174(2)), ac eithrio drwy'r broses apelio statudol yn Rhan 7 ei hun.
- 12.99 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym, oherwydd y rhyngweithiad hwn, ei bod yn bosibl na allai'r sawl sy'n derbyn hysbysiad gorfodi herio ei ddilysrwydd yn y llysoedd ar sail bod copi wedi'i gyflwyno ar ôl y terfyn amser, gan adael cyfnod ar gyfer apelio a oedd yn fyrrach, dipyn yn fyrrach o bosibl, na'r hyn a ragwelwyd gan gynllun y Ddeddf. Fodd bynnag, yn *R (Stern) v Horsham DC*, dyfarnodd y llys, er gwaethaf geiriad y statud, y dylai fod modd gwneud cais i'r llys o dan adran 285 i ddiddymu hysbysiad a oedd wedi'i gyflwyno ar ôl y terfyn amser.⁴⁹
- 12.100 Cynigiwyd dros dro gennym y gellid datrys y broblem drwy ddiwygio adran 174(2)(e) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, er mwyn iddi gyfeirio at adran 172(2) yn hytrach nag adran 172 yn fwy cyffredinol. Byddai hyn yn rhoi terfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gorfodi y tu hwnt i gwmpas y weithdrefn apelio statudol.
- 12.101 O blith y 27 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 26 yn cytuno heb wneud sylwadau pellach.
- 12.102 Anghytunodd CBS Torfaen ar y sail y byddai caniatáu i dderbynwyr wneud cais am adolygiad barnwrol o'r hysbysiad gorfodi y tu allan i'r terfyn amser yn ogystal â'r weithdrefn apelio statudol yn golygu gwastraffu amser, adnoddau ac arian yn ddiangen i bob parti. Nid ydym yn derbyn y pryder hwnnw, oherwydd sail y

⁴⁹ [2013] EWHC 1460 (Gweinyddol), [2013] PTSR 1502.

penderfyniad yn *Stern* oedd, mewn sefyllfa lle mae hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tu allan i'r terfyn amser, y byddai'r apêl statudol (i Weinidogion Cymru) yn annigonol.

Argymhelliad 12-13.

Argymhellwn y dylai sail (e) y gellir cyflwyno apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi yn unol â hi (o dan adran 174 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) gyfeirio at fethiant i gyflwyno copïau o'r hysbysiad fel sy'n ofynnol yn y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 172(2) (sy'n cyfeirio at gyflwyno hysbysiad i berchenogion a meddianwyr etc) yn hytrach nag fel sy'n ofynnol yn y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 172 yn ei chyfanrwydd (sydd hefyd yn cyfeirio at derfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad).

Ein barn dros dro oedd y dylai adran 174(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gofynion ynghylch y datganiad i'w gyflwyno ar y cyd ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio fel na fydd yn dyblygu gofynion yr is-ddeddfwriaeth berthnasol (Cwestiwn 12-14 o'r Ymgynghoriad).

- 12.103 Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym, o dan adran 174(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fod yn rhaid i berson sy'n apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi gyflwyno datganiad
- 1) yn nodi seiliau'r apêl y mae'n dibynnu arnynt; ac yn
 - 2) rhoi'r cyfryw wybodaeth bellach ag y gellir ei rhagnodi drwy reoliadau.⁵⁰
- 12.104 O dan y rheoliadau perthnasol dylai'r datganiad nodi seiliau'r apêl y dibynnir arnynt, y ffeithiau y dibynnir arnynt, a'r achos sy'n cael ei gyflwyno mewn perthynas â phob sail.⁵¹
- 12.105 O ystyried dyblygu o'r fath, cynigiwyd dros dro gennym mai'r cyfan sydd ei angen yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yw gofyniad bod yn rhaid i berson sy'n cyflwyno apêl roi gwybodaeth a manylion fel y'i rhagnodwyd mewn is-ddeddfwriaeth.
- 12.106 Ymatebodd 25 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd unrhyw ymgynghorai yn anghytuno nac wedi ychwanegu sylwadau pellach o sylwedd. Dywedodd Allan Archer ei fod yn ddiwygiad doeth.

Argymhelliad 12-14.

Argymhellwn y dylai adran 174(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (gofynion ynghylch y datganiad i'w gyflwyno ar y cyd ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio fel na fydd yn dyblygu gofynion yr is-ddeddfwriaeth berthnasol.

⁵⁰ Papur Ymgynghori, para 12.105.

⁵¹ 2017 OS 530, rheoliad 8(1)(a).

Her yn yr Uchel Lys i hysbysiad gorfodi

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 285(1) a (2) yn y rhan o'r Cod sy'n ymdrin â gorfodi, i'r perwyl na chaniateir herio hysbysiad gorfodi, ac eithrio drwy apêl i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellid bod wedi cyflwyno apêl o'r fath arni (Cwestiwn 12-15 o'r Ymgynghoriad).

- 12.107 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori fod modd herio penderfyniad gan Weinidogion Cymru i roi caniatâd cynllunio mewn ymateb i apêl gorfodi drwy gais i'r Uchel Lys o dan adran 288 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n bosibl hefyd herio unrhyw benderfyniad arall gan Weinidogion Cymru ar apêl o'r fath drwy gais o dan adran 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁵²
- 12.108 Ym Mhennod 17 o'n Papur Ymgynghori, cynigiwyd gennym na ddylai'r weithdrefn statudol o dan adrannau 288 a 289 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei hailddatgan yn y Bil, ond y dylai gael ei disodli gan gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol, o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.⁵³
- 12.109 Fodd bynnag, ym Mhennod 12 cynigiwyd gennym y dylai'r Bil gynnwys o hyd ddarpariaeth sy'n cyfateb i adrannau 285(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n nodi na chaniateir i berson y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad iddo herio hysbysiad gorfodi, ac eithrio drwy apêl i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellid bod wedi cyflwyno apêl o'r fath arni.⁵⁴
- 12.110 Ymatebodd 29 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd unrhyw un o'r ymgynghoreion yn anghytuno nac wedi ychwanegu sylwadau pellach o sylwedd. Nododd CS Caerfyrddin fod y cynnig yn gwneud y broses apelio yn fwy eglur.

Argymhelliad 12-15.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 285(1) a (2) yn y rhan o'r Bil sy'n ymdrin â gorfodi, i'r perwyl na chaniateir herio hysbysiad gorfodi, ac eithrio drwy apêl i Weinidogion Cymru, ar unrhyw un o'r seiliau y gellid bod wedi cyflwyno apêl o'r fath arni.

HYSBYSIADAU STOP

Cyflwyno hysbysiad

- 12.111 Ni fydd hysbysiad gorfodi yn dod yn weithredol ar unwaith, ac fel arfer bydd yn rhoi amser i gydymffurfio.⁵⁵ Felly, efallai y bydd cyflwyno hysbysiad o'r fath, ar ei ben ei

⁵² Papur Ymgynghori, para 12.111.

⁵³ Papur Ymgynghori, Cwestiwn 17-1 o'r Ymgynghoriad

⁵⁴ Papur Ymgynghori, para 12.112.

⁵⁵ Papur Ymgynghori, para 12.113.

hun, yn annigonol pan fo'n ddymunol bod gweithgarwch heb awdurdod yn dod i ben ar unwaith. Os felly, gall awdurdod cynllunio gyhoeddi "hysbysiad stop" sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n ei dderbyn roi'r gorau i'r gweithgarwch ar unwaith⁵⁶ Cynigiwyd dros dro gennym dri newid yn ymwneud â chyflwyno hysbysiadau stop a hysbysiadau stop yn dod yn weithredol.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 183(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd (Cwestiwn 12-16 o'r Ymgynghoriad).

12.112 Yn gyntaf, nodwyd gennym, fel gyda hysbysiadau stop dros dro, nad yw'r pŵer i gyflwyno hysbysiad stop ar gael i ddirwyn defnydd o unrhyw adeilad fel tŷ annedd i ben.⁵⁷ Yma hefyd, ein barn dros dro oedd y dylai hyn gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn nodi'n glir ei fod yn gymwys i unrhyw ran o adeilad sy'n cael ei defnyddio fel annedd.

12.113 Nid oedd unrhyw un o'r 30 o ymgynghoreion a ymatebodd yn anghytuno. Nododd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol y byddai newid o'r fath yn sicrhau parhad. Dywedodd CBS Rhondda Cynon Taf y byddai'n rhoi eglurder.

Argymhelliad 12-16.

Argymhellwn y dylai'r cyfyngiad ar gyhoeddi hysbysiad stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 183(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei wneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau ei fod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel annedd.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 184 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu diwygio fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopiau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am yr achos o dor-rheolaeth yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno) (Cwestiwn 12-17 o'r Ymgynghoriad).

12.114 Yn ail, nodwyd gennym, yn rhinwedd adran 183(5), nad yw awdurdod cynllunio yn cyhoeddi hysbysiad stop, eithr mae'n ei gyflwyno i unrhyw berson yr ymddengys bod ganddo fuddiant yn y tir y mae'n ymwneud ag ef, neu sy'n ymgymryd â'r gweithgarwch sy'n cael ei wahardd gan yr hysbysiad. A gall arddangos hysbysiad safle ar y tir, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny.

12.115 Fel gyda hysbysiad torri amodau, ein barn dros dro oedd y dylai hysbysiad ddod yn weithredol ar y dyddiad a nodir ynddo. Yna, dylai fod dyletswydd ar yr awdurdod i

⁵⁶ Papur Ymgynghori, para 12.114.

⁵⁷ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 183(4). Gweler **paragraffau 12.43 i 12.44.**

gyflwyno copïau o'r hysbysiad stop i berchennog a meddiannydd y tir. Yna gall copïau o'r hysbysiad stop eu cyflwyno i eraill – a gall hysbysiad gael ei arddangos ar y safle – fel yr ymddengys yn briodol.⁵⁸

- 12.116 O blith y 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 28 yn cytuno.
- 12.117 Pwysleisiodd PEBA y cafeat mewn perthynas â'i hymateb i Gwestiwn 12-6 o'r Ymgynghoriad (hysbysiaid stop dros dro), i'r perwyl y byddai'n bwysig bod y pŵer i gyflwyno copïau o hysbysiad yn un yn ôl disgrisiwn.⁵⁹
- 12.118 Cytunodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol mewn egwyddor ond gofynnodd a oedd angen newid y geiriad oherwydd "there appears to be very little wrong [with the existing procedure]". Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'n symlach pe bai'r gofynion i gyflwyno hysbysiaid stop yn dilyn y rhai sy'n ymwneud â hysbysiaid gorfodi mor agos â phosibl – yn bennaf am y bydd hysbysiad stop bob amser yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â hysbysiad gorfodi. Felly, byddai gofynion unffurf yn symleiddio'r system ac, o ganlyniad, yn lleihau'r risg o wallau ar y naill ochr a'r llall.
- 12.119 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym y gallai'r pŵer i arddangos hysbysiad ar y tir achosi problemau yn achos safle gwledig mawr, pe bai hysbysiad yn cael ei arddangos rywle ar y tir a oedd ymhell o'r man lle roedd y gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd mewn gwirionedd.⁶⁰ Ni chrybwyllwyd y pwynt hwn yng Nghwestiwn yr Ymgynghoriad, ac ni chyfeiriodd unrhyw un o'r ymgynghoreion ato; ond rydym wedi diwygio ein hargymhelliad i'w ymgorffori.

Argymhelliad 12-17.

Argymhellwn y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiaid stop, a geir ar hyn o bryd yn adran 184 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gael eu hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig fel y bydd hysbysiad yn cael ei "gyhoeddi", i ddod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo, gyda chopïau'n cael eu cyflwyno i'r rhai yr ymddengys eu bod yn gyfrifol am dorri rheolaeth (yn hytrach na chyflwyno hysbysiad ar wahân i bob person o'r fath, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy gyfeirio at y dyddiad cyflwyno); a phan gaiff hysbysiad ei arddangos ar y tir, y dylai fod mor agos ag sy'n bosibl yn rhesymol i'r man lle mae'r gweithgarwch tramgwyddus yn digwydd.

Cynigiwyd dros dro gennym: (1) y dylai fod yn drosedd fynd yn groes i hysbysiad stop sydd wedi dod yn weithredol; a (2) y dylai fod yn amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath i brofi nad oedd copi o'r hysbysiad stop wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig, ac nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad (Cwestiwn 12-18 o'r Ymgynghoriad).

⁵⁸ Papur Ymgynghori, para 12.119.

⁵⁹ Gweler **para 12.53**.

⁶⁰ Papur Ymgynghori, para 12.117.

- 12.120 Yn dilyn yr argymhelliad blaenorol, cynigiwyd gennym y dylai'r drosedd o dan adran 187(1) ymwneud â mynd yn groes i hysbysiad sydd wedi dod yn weithredol, yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno. Ond byddai'r amddiffyniad o dan adran 187(3) ar gael o hyd i berson sydd wedi cael ei gyhuddo o drosedd o'r fath – eithr byddai angen i'r cyfeiriad at gyflwyno'r hysbysiad gael ei ddiwygio i gyfeirio at gyflwyno copi o'r hysbysiad.⁶¹
- 12.121 O blith y 31 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r trydydd cynnig, roedd y mwyafrif llethol yn cytuno, gyda dim ond un yn ansicr ei ymateb. Nododd CS Caerfyrddin a CBS Rhondda Cynon Taf fod y cynigion yn rhoi eglurder. Cytunodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a PEBA, ond yn amodol ar y cafeatau a godwyd mewn cysylltiad â Chwestiwn 12-17 o'r Ymgynghoriad.⁶²
- 12.122 Dadleuodd Cyngor Dinas Casnewydd y dylai'r amddiffyniad awgrymedig i gyhuddiad o beidio â chydymffurfio â hysbysiad stop gael ei ddileu'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gallai fod yn deg cosbi rhywun am fethu â chydymffurfio â hysbysiad nad oedd yn ymwybodol ohono.
- 12.123 Nododd Michael Kiely nad oedd awdurdodau yn gwneud defnydd digonol o hysbysiadau stop llawn am fod o risg o iawndal yn rhy uchel, o gymharu â hysbysiadau stop dros dro. Ategwyd y pryder hwn gan Gymdeithas y Cyfreithwyr. Yn sicr, mae'n wir dweud bod y defnydd o hysbysiadau stop wedi lleihau'n gyffredinol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, fel y nodwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori.⁶³ Fodd bynnag, fel y nododd Huw Williams, mae'r cwestiwn ynghylch p'un a yw'r system bresennol yn ddigon cytbwys y tu hwnt i gwmpas ymarfer diwygio cyfraith technegol fel hwn.

Argymhelliad 12-18.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **dylai fod yn drosedd mynd yn groes i hysbysiad stop sydd wedi dod yn weithredol;**
- (2) **dylai profi**
 - **nad oedd copi o'r hysbysiad stop wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig, ac**
 - **nad oedd y cyhuddedig yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo neu iddi wybod, am fodolaeth yr hysbysiad fod amddiffyniad i gyhuddiad o drosedd o'r fath.**

⁶¹ Papur Ymgynghori, para 12.120.

⁶² Gweler **paragraffau 12.117 i 12.118.**

⁶³ Papur Ymgynghori, para 12.115.

Hysbysiadau stop: cynigion eraill

Cynigiwyd dros dro gennym: (1) y dylai hysbysiad stop beidio â bod yn weithredol pan fydd yr awdurdod cynllunio yn gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw; a (2) y dylid rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniad o'r fath mor fuan â phosibl ar ôl iddo gael ei wneud, drwy arddangos hysbysiad safle addas a hysbysu pawb a hysbyswyd am yr hysbysiad gwreiddiol. (Cwestiwn 12-19 o'r Ymgynghoriad)

- 12.124 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, o dan adran 184(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y bydd hysbysiad stop yn peidio â bod yn weithredol pan gaiff yr hysbysiad gorfodi cysylltiedig ei dynnu'n ôl neu ei ddi-ddymu, neu pan fydd y cyfnod i gydymffurfio â'r hysbysiad hwnnw yn dod i ben. Ond bydd hysbysiad stop hefyd yn peidio â bod yn weithredol pan fo'r awdurdod cynllunio yn penderfynu ei dynnu'n ôl (naill ai ar y cyd â'r hysbysiad gorfodi cysylltiedig, neu fel arall).
- 12.125 Yn yr achos olaf, mae'n rhaid i'r awdurdod hysbysu pob un y cyflwynwyd yr hysbysiad stop gwreiddiol iddynt (neu y cawsant eu hysbysu ei fod wedi ei gyflwyno) ei fod wedi'i dynnu'n ôl. Bydd yr hysbysiad yn peidio â bod yn weithredol pan fydd y person cyntaf o blith y rhain yn derbyn yr hysbysiad tynnu'n ôl.⁶⁴ Cynigiwyd dros dro gennym y byddai'n fwy synhwyrol pe bai hysbysiad stop yn peidio â bod yn weithredol ar unwaith yn dilyn penderfyniad yr awdurdod cynllunio, ac y dylai'r awdurdod cynllunio roi gwybod am y penderfyniad mor fuan â phosibl i'r rhai a gafodd yr hysbysiad gwreiddiol a thrwy hysbysiad ar y tir ei hun.
- 12.126 Nid oedd unrhyw un o'r 28 o ymgynghoreion a ymatebodd yn anghytuno. Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol fod ein cynnig yn synnwyr cyffredin.
- 12.127 Nododd sawl ymgynghorai mai dim ond os defnyddiwyd hysbysiad safle i roi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad stop gwreiddiol y bydd y gofyniad o dan adran 184(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i roi cyhoeddusrwydd bod hysbysiad safle wedi'i dynnu'n ôl drwy hysbysiad safle, yn dod yn weithredol. Nid oedd hyn yn glir yng ngeiriad ein cynnig dros dro, ac rydym wedi diwygio ein hargymhelliad terfynol yn unol â hynny.

Argymhelliad 12-19.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **pan fo awdurdod cynllunio yn penderfynu tynnu hysbysiad stop yn ôl, dylai'r hysbysiad beidio â bod yn weithredol ar unwaith;**
- (2) **dylid rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniad o'r fath mor fuan â phosibl ar ôl iddo gael ei wneud:**
 - **drwy hysbysu pob un a hysbyswyd am yr hysbysiad gwreiddiol, ac**

⁶⁴ Papur Ymgynghori, para 12.121.

- **os rhoddwyd cyhoedduswydd i'r hysbysiad gwreiddiol drwy hysbysiad safle, drwy arddangos hysbysiad arall o'r fath, yn yr un lleoliad.**

Cynigiwyd dros dro gennym, pan fo hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru o dan adran 185, ac yna'i ddiddymu, y dylai unrhyw iawndal sy'n codi o dan adran 186 fod yn daladwy ganddynt hwy ac nid gan yr awdurdod cynllunio (Cwestiwn 12-20 o'r Ymgynghoriad).

- 12.128 Yn ein Papur Ymgynghori tynnwyd sylw at y ffaith, os bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad stop, mai'r awdurdod cynllunio sy'n atebol am dalu unrhyw iawndal a all fod yn daladwy o dan adran 186 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁶⁵
- 12.129 Cynigiwyd dros dro gennym, yn yr achosion prin pan fydd hyn yn digwydd, y byddai'n fwy priodol pe bai Gweinidogion Cymru yn atebol am dalu iawndal yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol.
- 12.130 Roedd pob un o'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno, a chytuno'n gryf mewn sawl achos – Huw William “completely” a CBS Blaenau Gwent “wholeheartedly”. Dywedodd Allan Archer fod ein cynnig yn ymddangos “only fair and logical.”
- 12.131 Fodd bynnag, o ystyried y mater ymhellach, nodwn mai dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y mae iawndal yn daladwy:
- 1) caiff yr hysbysiad gorfodi sy'n gysylltiedig â'r hysbysiad stop ei ddiddymu neu ei amrywio ar seiliau heblaw'r caniatâd cynllunio sy'n cael ei roi (hynny yw, y seiliau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r angen am ganiatâd ar gyfer y datblygiad, neu am gyflwyno'r hysbysiad); neu
 - 2) caiff yr hysbysiad gorfodi ei dynnu'n ôl gan yr awdurdod cynllunio ar seiliau o'r fath; neu
 - 3) caiff yr hysbysiad stop ei hun ei dynnu'n ôl.
- 12.132 Rydym yn cydnabod, pan fo hysbysiad gorfodi wedi'i gyflwyno gan awdurdod cynllunio a phan fydd hysbysiad stop wedi'i gyflwyno gan Weinidogion Cymru, mai dim ond os caiff hysbysiad gorfodi'r awdurdod ei ddiddymu neu ei amrywio, sef cyfrifoldeb yr awdurdod, y byddai'r atebolrwydd am dalu iawndal yn codi; neu pan fo'r awdurdod ei hun yn tynnu ei hysbysiad ei hun yn ôl. Mewn achosion o'r fath, ymddengys yn rhesymol mai'r awdurdod ddylai dalu iawndal.
- 12.133 Fodd bynnag, pan fo Gweinidogion Cymru eu hunain yn cyhoeddi hysbysiad gorfodi, o dan adran 182 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac yna'n cyhoeddi hysbysiad stop o dan adran 185, ymddengys yn fwy priodol mai Gweinidogion Cymru

⁶⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen 1, para 16; Papur Ymgynghori, para 12.124.

ddylai fod yn atebol am dalu unrhyw iawndal a all godi. Rydym wedi addasu ein hargymhelliad yn unol â hynny.

Argymhelliad 12-20.

Argymhellwn, pan fo hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 182 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a phan fo hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno ganddynt o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 185, ac yna'i ddiddymu, dylai unrhyw atebolrwydd am dalu iawndal sy'n codi o dan adran 186 fod yn daladwy ganddynt hwy ac nid gan yr awdurdod cynllunio.

CANLYNIADAU CAMAU GORFODI

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r troseddau o dan adran 179(2) (torri hysbysiad gorfodi) ac adran 179(5) (ailddechrau gweithgaredd gwaharddedig yn dilyn hynny) gael eu llunio er mwyn darparu bod person yn cyflawni trosedd: (1) os yw'r person wedi torri hysbysiad gorfodi; (2) os oedd yr hysbysiad ar adeg ei dorri wedi'i gynnwys ar y gofrestr berthnasol; a (3) os oedd copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r person (Cwestiwn 12-21 o'r Ymgynghoriad).

- 12.134 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori fod peidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi sydd wedi dod yn weithredol yn drosedd o dan adran 179(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.⁶⁶ Mae adran 179(7) yn nodi, pan fo person wedi'i gyhuddo o drosedd o dan adran 179 ac nad oedd copi o'r hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno iddo neu iddi, ac nad yw'r hysbysiad wedi'i gynnwys ar y gofrestr orfodi, ei bod yn drosedd i'r person hwnnw ddangos nad oedd yn ymwybodol o fodolaeth yr hysbysiad.
- 12.135 Dadleuwyd gennym ei bod yn feichus i'r diffynnydd brofi nad oedd yr hysbysiad wedi'i gynnwys ar y gofrestr berthnasol ar ddyddiad y drosedd ac nad oedd copi ohono wedi cael ei gyflwyno iddo neu iddi. Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r erlyniad brofi, i'r safon prawf droseddol, fod y diffynnydd wedi torri hysbysiad gorfodi, a bod yr hysbysiad ar adeg ei dorri wedi'i gynnwys ar y gofrestr berthnasol, a bod copi o'r hysbysiad wedi cael ei gyflwyno i'r person.
- 12.136 O blith y 28 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 25 yn cytuno ac roedd tri yn anghytuno. Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol "[that] this appears to be a logical approach."
- 12.137 Gwnaeth y rhai a oedd yn anghytuno sylwadau manwl a defnyddiol. Nododd yr Arolygiaeth Gynllunio y canlynol:

No, PINS disagrees with this proposal. Under present provisions it is a defence for a person to show that he or she was not aware of the existence of a notice if that person has not been served with a copy of the notice and the notice is not in the register. This latter requirement ensures that those who

⁶⁶ Papur Ymgynghori, para 12.125.

become involved in the site after the notice has been served are bound by its requirements (and should consult the register). The suggested change appears to alter the existing 2 options to requiring that both steps (serving on the person and register entry) are necessary.

It would seem undesirable that: 1) a person served with a notice could plead ignorance of it on the basis that the register is not up-to-date; and 2) a person who becomes involved in the site after the notice has been properly served can use the defence that he/she was not served with a copy.

12.138 Nododd CBS Torfaen y canlynol:

It may be equally as difficult for a LPA to prove that a notice was contained in the relevant register at the time of the breach because there is not a requirement to record the date when a notice is added to the register. Although, in reality, most LPAs are likely to add any new notices to the enforcement register within a couple of days of being issued / served, if the authority was asked to confirm exactly when a notice was added to the register then this may be difficult.

Furthermore, it is questionable whether it is actually beneficial to include reference to the register in respect of the above offences. No-one ever asks to see the enforcement register and there are probably very few people that know that one exists! Would it not be easier and fairer for the above offences to be proved with reference to points (1) and (3) only and to amend Section 179(7) accordingly?

For those transgressors that weren't originally served with a copy of the enforcement notice (e.g. because they have only recently bought the land to which the notice relates), there could be a requirement for the LPA to prove that they subsequently supplied the transgressor with a copy of the notice and therefore made them aware of its existence.

Finally, in terms of point (3), reference is made to the person being "served" with a copy of the notice. However, this term may be confusing as a person who is "served" with a copy of an enforcement notice is usually regarded as the original recipient of the notice. It may therefore be beneficial to distinguish between those people that were originally "served" with a copy of a notice, and those people who subsequently had an interest in the land and were "supplied / provided with" a copy of the notice.

12.139 Nododd CBS Pen-y-Bont ar Ogwr y canlynol:

No – (2) and (3) should not have to be satisfied. If the notice was properly registered at the time of the breach then whoever breaches it should be criminally liable. Otherwise, the LPA will have to show service on each individual person as well as the registration of the notice. All of the onus of establishing service will fall on the LPA. This reform will make prosecutions in Wales for breach of an enforcement notice much harder for the LPA and is likely to make evasion much easier.

We should either stick with the current section 179 or at the very least say that the offence will be made out if the notice had been properly registered.

- 12.140 Rydym wedi cael ein darbwylo gan y pwynt, a godwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a CBS Pen-y-Bont ar Ogwr, y byddai'r amddiffyniad yn rhy ffafriol i ddiffynyddion pe bai gofyniad ar awdurdodau cynllunio i brofi bod hysbysiad wedi'i gyflwyno a hefyd ei fod wedi'i gynnwys ar y gofrestr. Fel yr esboniodd CBS Torfaen, gall fod yn anodd i awdurdod cynllunio gadarnhau pryd y cafodd hysbysiad gorfodi ei osod ar y gofrestr. Byddai'n ymddangos yn amhriodol pe bai diffynnydd yn osgoi erlyniad ar y sail na all yr awdurdod cynllunio brofi pryd y cafodd yr hysbysiad ei osod ar y gofrestr, os gall yr awdurdod cynllunio brofi bod copi o'r hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno i'r diffynnydd cyn y tramgwydd dan sylw. Felly, rydym wedi diwygio ein cynnig dros dro yn unol â hynny.
- 12.141 Nododd CBS Torfaen hefyd y gall fod diffynyddion sy'n ymwybodol o hysbysiad gorfodi ond na chyflwynir copi ohono iddynt, megis meddianwyr canlyniadol y tir. Rydym wedi ein darbwylo, os gall awdurdod cynllunio brofi y tu hwnt i bob amheuaeth resymol fod diffynnydd yn ymwybodol o hysbysiad gorfodi, y dylai hyn fod yn ddigon i osod atebolrwydd troseddol er nad oedd copi o'r hysbysiad wedi'i gyflwyno.
- 12.142 Yn dilyn yr awgrymiadau uchod, rydym yn argymhell mai ar yr awdurdod cynllunio y dylid rhoi'r baich profi (i'r safon droseddol), ond rydym bellach yn argymhell mai dim ond profi ymwybyddiaeth o'r hysbysiad neu gofnod ar y gofrestr orfodi ar adeg y tramgwydd honedig y dylai fod angen i'r awdurdod ei wneud.
- 12.143 Nodwn y sylw gan CBS Torfaen mai anaml yr edrychir ar y gofrestr orfodi. Fodd bynnag, mae darpar brynwyr neu eu cynghorwyr proffesiynol yn debygol o fod yn ymwybodol ohoni – neu'r gofrestr o arwystlon tir lleol.
- 12.144 Mae problem arall, a ddygwyd i'n sylw mewn perthynas â **Chwestiwn 15-16 o'r Ymgynghoriad**, yn gymwys hefyd i'r cynnig hwn – sef y gallai'r gofyniad i ddangos bod yr hysbysiad ar y gofrestr berthnasol ar adeg ei dorri achosi problemau ped ymgymerid â'r gwaith y tu allan i oriau swyddfa (er enghraifft, ar y penwythnos).⁶⁷ Gellid lleddfu'r anhawster canlyniadol o ran tystiolaeth drwy gyflwyno, yn y rheoliadau perthnasol, ochr yn ochr â'r gofyniad i gynnwys hysbysiad gorfodi ar y gofrestr, ofyniad arall i gofnodi'r dyddiad y cafodd ei gynnwys felly gyntaf.

Argymhelliad 12-21.

Argymhellwn y canlynol:

- (1) **dylai pob un o'r troseddau o dan adran 179(2) (torri hysbysiad gorfodi) ac adran 179(5) (ailddechrau gweithgaredd gwaharddedig yn dilyn hynny) gael eu hail-lunio er mwyn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn torri hysbysiad gorfodi, ac**

⁶⁷ Gweler para 15.113.

- os oedd yr hysbysiad ar adeg ei dorri wedi'i gynnwys ar y gofrestr berthnasol; neu
 - roedd y person yn ymwybodol o'r hysbysiad, am fod copi wedi'i gyflwyno neu fel arall.
- (2) dylai'r rheoliadau perthnasol gynnwys, ochr yn ochr â'r gofyniad i gynnwys yr hysbysiad gorfodi ar y gofrestr, ofyniad arall i gofnodi'r dyddiad y cafodd ei gynnwys felly yn gyntaf.
- (3) Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gynghori defnyddwyr y system gynllunio i edrych ar y gofrestr orfodi cyn ymgymryd â gweithgareddau ar dir a all fod yn destun rheolaeth gynllunio, a rhoi cyfarwyddiadau clir ynglŷn â sut i wneud hyn.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai adran 172A o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (sicrwydd ynghylch peidio ag erlyn achos o dorri hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio er mwyn galluogi awdurdod i: (1) rhoi sicrwydd o'r fath, yn syml, drwy "hysbysu'r" person perthnasol, yn hytrach na gwneud hynny drwy lythyr o reidrwydd; a (2) rhoi sicrwydd mewn ymateb i gais gan berson (B), sy'n caffael buddiant mewn tir ar ôl i hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â'r tir gael ei gyhoeddi, yn esbonio ei bod yn ofynnol i'r awdurdod, unwaith bod yr hysbysiad gorfodi wedi'i gyhoeddi, gyflwyno copi ohono i berson (A) yr oedd person B wedi caffael y buddiant yn y tir oddi wrtho neu oddi wrthi (Cwestiwn 12-22 o'r Ymgynghoriad).

12.145 Cyflwynwyd adran 172A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan adran 125 o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Yn wahanol i ddarpariaethau eraill Deddf 2011 sy'n ymwneud â gorfodi, mae'n gymwys i Gymru yn ogystal â Lloegr.

12.146 Yn gyntaf, mae'n galluogi awdurdod cynllunio i roi sicrwydd i berson y mae copi o hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno iddo neu iddi na fydd y person yn wynebu risg o gael ei (h)erlyn am beidio â chydymffurfio. Felly mae adran 172A yn nodi:

When, or at any time after, an enforcement notice is served on a person, the local planning authority may give the person a letter –

explaining that, once the enforcement notice had been issued, the authority was required to serve the notice on the person.

12.147 Mae'n debyg bod hyn yn ymdrin â'r sefyllfa, er enghraifft, pan fydd yn rhaid i hysbysiad gael ei gyflwyno gan yr awdurdod i rydd-ddeiliad tir (A) o dan amgylchiadau pan nad oes a wnelo'r perchennog hwnnw ddim â'r achos o dor-rheolaeth a gyflawnir gan feddianydd (B). Ond nid yw'n ymdrin â'r sefyllfa pan fo copi o'r hysbysiad gorfodi yn cael ei gyflwyno i A, sydd wedyn yn trosglwyddo'r tir i B. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar yr awdurdod i gyflwyno copi arall o'r hysbysiad i B, a fydd yn dod yn ymwybodol ohono, yn syml, drwy'r broses drawsgludo. Ond dylai fod yn agored i awdurdod roi sicrwydd i B ar yr un telerau ag y rhoddodd, neu y gallai fod wedi rhoi, sicrwydd i A – yn enwedig os oedd B yn ceisio sicrwydd o'r fath. Yn ein Papur

Ymgynghori nodwyd gennym, pan drosglwyddir tir, nad oes unrhyw bŵer i'r awdurdod roi sicrwydd o'r fath i'r perchennog newydd.

- 12.148 Yn ail, mae adran 127A, fel y'i drafftiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi sicrwydd ar ffurf llythyr, yn hytrach na thrwy "hysbysu", a allai gynnwys drwy e-bost. Cynigiwyd dros dro gennym y dylid unioni'r ddau anghysonder hyn.
- 12.149 O blith y 32 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 28 yn cytuno, roedd tri yn anghytuno ac roedd un ymateb yn aneglur.
- 12.150 Ni wnaeth neb unrhyw sylwadau ar y pwynt cyntaf uchod. Fodd bynnag, mynegodd sawl ymgynghorai y pryder, o dan ein cynnig, y gallai "hysbysu" gynnwys sicrwydd ar lafar. A nododd Sirius Planning:

We disagree with the proposal to issue notice by other means than letter. Email addresses are regularly changed, or emails often lost into 'junk' folders; we consider that any communications should be supplemented by hard copy letter.

- 12.151 Rydym yn cytuno na fyddai hysbysu ar lafar yn ddymunol. Ond, yn ein barn ni, byddai e-bost yn briodol pe bai'r derbynnydd wedi nodi y byddai'n briodol – mae cyfrifoldeb ar y person sy'n ceisio'r sicrwydd i sicrhau bod e-bost wedi'i dderbyn mewn gwirionedd, ac yna'i gadw (naill ai drwy argraffu copi caled neu fel arall).
- 12.152 Roedd ein cynnig, yn syml, yn cyfeirio at hysbysu. Mae adran 329 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi diffiniad manwl o'r hyn sydd ynghlwm mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan gynnwys anfon neu ddsbarthu hysbysiad ysgrifenedig ac (o dan amgylchiadau penodol yn unig) ei anfon drwy fodd electronig – ond nid hysbysu ar lafar, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Rydym wedi diwygio ein hargymhelliad terfynol i wneud hyn yn gliriach.

Argymhelliad 12-22.

Argymhellwn y dylai adran 172A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sicrwydd ynghylch peidio ag erlyn achos o dorri hysbysiad gorfodi) gael ei diwygio er mwyn galluogi awdurdod i:

- (1) **rhoi sicrwydd o'r fath, yn syml, drwy hysbysu'r person perthnasol yn ysgrifenedig, fel y'i diffiniwyd yn adran 329 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn hytrach na gwneud hynny drwy lythyr ar ffurf copi caled o reidrwydd;**
- (2) **rhoi sicrwydd mewn ymateb i gais gan berson (B), sy'n caffael buddiant mewn tir ar ôl i hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â'r tir gael ei gyhoeddi, yn esbonio ei bod yn ofynnol i'r awdurdod, unwaith bod yr hysbysiad gorfodi wedi'i gyhoeddi, gyflwyno copi ohono i berson (A) yr oedd B wedi caffael buddiant yn y tir oddi wrtho neu oddi wrthi.**

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai adran 180(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â'r effaith ar hysbysiad gorfodi os caiff caniatâd cynllunio ei roi wedyn) gael ei diwygio er mwyn cyfeirio: (1) at roi caniatâd cynllunio yn gyffredinol, yn hytrach na dim ond caniatâd ar gyfer datblygiad yr ymgwymerwyd ag ef eisoes; a (2) at roi caniatâd cynllunio ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei gyhoeddi, yn hytrach nag ar ôl i gopi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno (Cwestiwn 12-23 o'r Ymgynghoriad).

- 12.153 Pan fo caniatâd cynllunio yna'n cael ei roi, ar ôl i gopi o hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau gael ei gyflwyno, ar gyfer datblygiad yr ymgwymerwyd ag ef cyn i'r caniatâd hwnnw gael ei roi, nid yw'r hysbysiad yn weithredol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw.⁶⁸ Y bwriad yn amlwg yw bod rhoi caniatâd cynllunio, i bob diben, yn disodli unrhyw hysbysiad gorfodi cynharach sy'n anghyson ag ef.
- 12.154 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori mai dim ond pan ymgwymerwyd eisoes â datblygiad y rhoddir caniatâd ar ei gyfer y mae hyn yn gymwys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os rhoddir caniatâd yn ôl-weithredol ar gyfer datblygiad arall sydd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn gorgyffwrdd neu sy'n ymwneud â'r datblygiad heb awdurdod sy'n destun yr hysbysiad gorfodi, dylai'r un egwyddor fod yn gymwys. Felly, cynigiwyd dros dro gennym y dylai adran 180(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael ei diwygio yn unol â hynny.
- 12.155 Argymhellwyd gennym hefyd y dylid diwygio adran 180(1) er mwyn iddi gyfeirio at gyhoeddi hysbysiad yn hytrach na chyflwyno copi ohono. Byddai hyn hefyd yn gymwys i hysbysiad torri amodau.
- 12.156 Nid oedd unrhyw un o'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd yn anghytuno â'n cynnig dros dro.
- 12.157 Gofynnodd Allan Archer pam nad yw'r cyfeiriad yn adran 180(1) at ddatblygiad yr ymgwymerwyd ag ef yn gywir, gan na fyddai camau gorfodi yn cael eu cymryd mewn perthynas â datblygiad nad yw wedi'i gwblhau eto.
- 12.158 Rydym yn cytuno y byddai geiriad presennol adran 180(1) yn achosi problemau'n ymarferol fel arfer. Fodd bynnag, mae hysbysiad gorfodi yn parhau i fod "yn weithredol" am gyfnod amhenodol, nes iddo gael ei ddiddymu neu nes iddo beidio â bod yn weithredol, ac ymddengys yn amhriodol mewn egwyddor y dylai barhau i fod yn weithredol i'r graddau y rhoddir caniatâd ar gyfer datblygiad sy'n gorgyffwrdd â'r datblygiad heb awdurdod. Ond efallai na fyddai hynny yn gymwys pan fo caniatâd yn cael ei roi ar gyfer datblygiad o'r fath sy'n gorgyffwrdd, ond pan na fydd y caniatâd byth yn cael ei weithredu. Rydym wedi diwygio ein hargymhelliad yn unol â hynny.

⁶⁸ Papur Ymgynghori, para 12.134; Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 180(1).

Argymhelliad 12-23.

Argymhellwn y dylai adran 180(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (sy'n ymwneud â'r effaith ar hysbysiad gorfodi os caiff caniatâd cynllunio ei roi wedyn) gael ei hailddatgan ar ffurf ddiwygiedig er mwyn cyfeirio at:

- (1) rhoi caniatâd cynllunio ar ôl i hysbysiad gorfodi neu hysbysiad torri amodau gael ei gyhoeddi, yn hytrach nag ar ôl i gopi o'r hysbysiad gael ei gyflwyno;
- (2) rhoi caniatâd cynllunio yn gyffredinol ar gyfer datblygiad yr ymgwymerwyd ag ef eisoes;
- (3) rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad arall, unwaith bod y caniatâd hwnnw wedi cael ei roi ar waith.

COSBAU TROSEDDOL

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth anwir mewn ymateb i gais gan awdurdod cynllunio, a geir ar hyn o bryd o dan adrannau 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, oll fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod (yn y llys ynadon) neu ar ddiad (yn Llys y Goron), ac y dylai uchafswm y gosb ym mhob achos yn y naill achos a'r llall fod yn ddirwy o unrhyw swm (Cwestiwn 12-24 o'r Ymgynghoriad).

- 12.159 Mewn sawl man gwahanol mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ei bod yn drosedd darparu gwybodaeth anwir.⁶⁹ Yn ein Papur Ymgynghori nodwyd gennym fod anghysondebau yn yr ystyr y gallai rhai troseddau gael eu cosbi drwy ddeddfryd o garchar ond bod eraill yn cael eu cosbi drwy ddirwy ddiderfyn yn unig. Er enghraifft, mae darparu gwybodaeth anwir er mwyn cael tystysgrif datblygiad cyfreithlon, sy'n drosedd o dan adran 194(1), yn cael ei gosbi yn dilyn collfarn ddiannod drwy ddirwy (o unrhyw swm) ac yn dilyn collfarn ar ddiad (yn Llys y Goron) drwy ddirwy a/neu dymor o hyd at ddwy flynedd yn y carchar. Mewn gwrthgyferbyniad, mae darparu tystysgrif ffug ynghylch perchenogaeth tir mewn cysylltiad â chais am ganiatâd cynllunio, sy'n drosedd o dan adran 65(6), ond yn cael ei gosbi drwy ddirwy yn dilyn collfarn ddiannod.
- 12.160 Cynigiwyd dros dro gennym, er cysondeb, mai uchafswm y gosb ar gyfer pob un o'r troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth anwir i awdurdod cynllunio ddylai fod yn ddirwy ddiderfyn, heb opsiwn carcharu.
- 12.161 Ymatebodd 27 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd neb yn anghytuno â'n cynnig dros dro.

⁶⁹ Papur Ymgynghori, paragraffau 12. 141 – 12. 146.

- 12.162 Awgrymodd ein cynnig dros dro y dylai troseddau sy'n dditiadwy ar hyn o bryd barhau i fod yn dditiadwy, er bod uchafswm y ddedfryd yn is. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr a Huw Williams

We are unsure about this proposal. If the sentence both summarily and on indictment is an unlimited fine what is the purpose of proceeding by indictment? The availability of imprisonment, albeit only in the most serious cases provided a justification for retaining prosecution on an indictment.

- 12.163 Ym mis Mawrth 2015, codwyd y terfyn o £5,000 ar uchafswm dirwyon yn y llys ynadon, fel y gall ynadon roi dirwyon diderfyn bellach.⁷⁰ Fodd bynnag, efallai y byddai'n well o hyd ddwyn achos drwy dditiad os yw'r achos yn gymhleth iawn, neu os yw'r erlyniad yn gysylltiedig ag erlyn troseddau eraill. At hynny, pe bai'r troseddau presennol yn cael eu gwneud yn rhai "diannod yn unig", byddai rhai goblygiadau hefyd i derfynau amser erlyn.⁷¹

Argymhelliad 12-24.

Argymhellwn y dylai troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth anwir mewn ymateb i gais gan awdurdod cynllunio, a geir ar hyn o bryd o dan adrannau 65(6), 171D(5), 194(1) a 330(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – yn achos troseddau a gyflawnir ar neu ar ôl dyddiad deddfu'r Bil – oll fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod (yn y llys ynadon) neu ar dditiad (yn Llys y Goron), ac y dylai uchafswm y gosb ym mhob achos yn y naill achos a'r llall fod yn ddirwy o unrhyw swm.

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r troseddau sy'n ymwneud ag: adfer adeiladau neu waith ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi (o dan adran 181(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990); a methu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau (o dan adran 187A(9) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod neu ar dditiad, ac yn gosbadwy yn y naill achos a'r llall drwy ddirwy o unrhyw swm, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r cosbau ar gyfer achosion eraill o dorri hysbysiaid gorfodi cynllunio (Cwestiwn 12-25 o'r Ymgynghoriad).

- 12.164 Nid yw ymgymryd â datblygiad heb awdurdod yn drosedd, ond mae methu â chydymffurfio â champau gorfodi yn drosedd.⁷² Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd gennym, yn y rhan fwyaf o achosion, y gall y drosedd dan sylw fod yn brofadwy yn

⁷⁰ Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, a 85, a ddaeth i rym ar 12 Mawrth 2015: OS 2015/504, erthygl 2.

⁷¹ Mae troseddau diannod yn unig yn ddarostyngedig i derfyn amser erlyn llymach na throseddau sydd hefyd yn dditiadwy: Deddf Llysoedd Ynadon 1980, a 127(1). Mae'n werth nodi, o dan adran 65(9) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nad yw'r drosedd ddiannod yn unig a geir yn adran 65(6) yn ddarostyngedig i'r terfyn amser llymach. Gellir gwrthgyferbynnu hyn â'r drosedd ddiannod yn unig yn adran 171D(5). Yn rhyfedd ddigon, mae'r drosedd "neillfordd" yn adran 194(1) yn ddarostyngedig i ddarpariaeth sydd â'r un geiriad yn adran 194(3), er nad yw troseddau neillfordd yn ddarostyngedig i'r terfyn amser llymach: Deddf Llysoedd Ynadon 1980, adran 127(2)(a). Gweler hefyd *Blackstone's Criminal Practice* (2017) D21. 18.

⁷² Papur Ymgynghori, para 12.147.

ddiannod neu ar dditiad, ac yn gosbadwy yn y naill achos a'r llall drwy ddirwy o unrhyw swm.⁷³ Fodd bynnag, ceir dau eithriad, y mae'r naill a'r llall yn drosedd ddiannod yn unig:

- 1) adfer adeiladau neu waith ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi, sy'n cael ei gosbi yn dilyn collfarn drwy uchafswm cosb o ddirwy ddiderfyn (trosedd o dan adran 181(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990).
- 2) methu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau, sy'n cael ei gosbi yn dilyn collfarn drwy uchafswm cosb o ddirwy hyd at Lefel 4 yn Lloegr, a hyd at Lefel 3 yng Nghymru (trosedd o dan adran 187A(9)).

12.165 Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r ddwy drosedd hyn fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod neu ar dditiad, ac yn gosbadwy yn y naill achos a'r llall drwy ddirwy o unrhyw swm, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r cosbau ar gyfer achosion eraill o dorri hysbysiadau gorfodi cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

12.166 Ymatebodd 30 o ymgynghoreion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd neb yn anghytuno â'n cynnig dros dro. Dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio fod ein cynnig dros dro yn awgrym rhesymol. Croesawyd y cynnig gan CS Caerfyrddin. Cytunodd CSB Rhondda Cynon Taf "[that] the penalties for none compliance should be brought in line with other notices". Cefnogwyd y cynnig gan NAPE, PEBA a Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol heb sylwadau. Cytunodd Cymdeithas y Cyfreithwyr a Huw Williams, ond gan ailddatgan eu sylw ynghylch yr argymhelliad blaenorol – y byddem yn ailadrodd ein sylwadau mewn ymateb iddo.⁷⁴

12.167 Cafwyd dau ymateb ansicr. Nododd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad fod cysondeb yn bwysig ond nad oedd mewn sefyllfa "to know whether what is proposed is the right option." Nododd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol "in principle we believe that fines should be proportionate to the damage so that the level of any fine imposed should be justified." Yn ymarferol, bydd y ddeddfyd a roddir yn y naill achos a'r llall yn fater i'r llys, a gall amrywio o ddirwy fawr, mewn achos dybryd gan ddiffynnydd cyfoethog, i ryddhad diamod.

Argymhelliad 12-25.

Argymhellwn y dylai'r troseddau sy'n ymwneud ag

- (1) **adfer adeiladau neu waith ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi (o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 181(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990); a**
- (2) **methu â chydymffurfio â hysbysiad torri amodau (o dan y ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 187A(9))**

yn achos troseddau a gyflawnir ar neu ar ôl dyddiad deddfu'r Bil, fod yn brofadwy naill ai'n ddiannod neu ar dditiad, ac yn gosbadwy yn y naill achos a'r llall drwy

⁷³ Papur Ymgynghori, para 12.149.

⁷⁴ Gweler **paragraffau 12. 162 a 12. 163** uchod.

ddirwy o unrhyw swm, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r cosbau ar gyfer achosion eraill o dorri hysbysiadau gorfodi cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

ACHOSION HANESYDDOL O DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylai adrannau 57(7), 302 nac Atodlenni 4 a 15 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag achosion o dorri rheolaeth gynllunio cyn 1948, gael eu hailddatgan yn y Cod (Cwestiwn 12-26 o'r Ymgynghoriad).

12.168 Yn ein Papur Ymgynghori tynnwyd sylw at ddwy ddarpariaeth yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ddiangen i bob golwg, sy'n ymwneud ag achosion hanesyddol o dorri rheolaeth gynllunio, ac argymhellwyd na ddylent gael eu hailddatgan yn y Cod:

- 1) adran 57(7) ac Atodlen 4, o ran aildechrau defnyddiau tir dros dro hanesyddol cyn mis Rhagfyr 1968.
- 2) adran 302 ac Atodlen 15, o ran cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiad heb awdurdod ar dir y Goron a ddigwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

12.169 Roedd pob un o'r 29 o ymgynghoreion a ymatebodd yn cytuno.

Argymhelliad 12-26.

Argymhellwn na ddylai adrannau 57(7), 302 nac Atodlenni 4 a 15 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ymwneud ag achosion hanesyddol o dorri rheolaeth gynllunio gael eu hailddatgan yn y Bil.

PWYNTIAU ERAILL

12.170 Awgrymodd PEBA y dylem ystyried ymgorffori'r egwyddor a sefydlwyd gan Dŷ'r Arglwyddi yn *R v Wicks*⁷⁵ yn y Bil – ei bod yn amddiffyniad i erlyn achos o dorri hysbysiad gorfodi fod diffyg ar wyneb yr hysbysiad sy'n peri iddo fod yn ddi-rym. Fodd bynnag, rydym yn cymryd mai'r egwyddor a sefydlwyd yn *Wicks* yw y dylid ymdrin â heriau i ddilysrwydd hysbysiad gorfodi – hyd yn oed ar y sail ei fod mor ddiffygiol nes ei fod yn ddi-rym – bron bob amser drwy gais am adolygiad barnwrol yn hytrach nag yn y llysoedd troseddol (yng nghyd-destun erlyniad am beidio â chydymffurfio o dan adran 179 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). At hynny, rydym yn amau p'un a allai'r eithriadau i'r egwyddor honno, yn hawdd, fod yn destun darpariaeth statudol.

12.171 Felly nid ydym wedi cynnwys argymhelliad mewn ymateb i'r awgrym hwn.

⁷⁵ [1998] AC 92.